

ECO'R WYDDFA

RHIF 384

NADOLIG / IONAWR 2011

PRIS 50c

Cyfarchion Nadolig LLanrug, Waunfawr, Caeathro,

Bethel

+

Eisteddfod Llanrug

a Chwm y Glo

CYNGERDD NADOLIG BABANOD LLANRUG



Ras i Anfeidredd BT PLEIDLEISIWCH HEDDIW!



Dros y bum mlynedd nesaf bydd BT yn gosod band llydan ffibr optig drwy Brydain. Bydd rhai llefydd yn ei gael yn ddiofyn ond bydd rhaid i'r gweddill ohonom wneud ymdrech i fod ar eu rhestr.

Bydd pum ardal gyda'r canran uchaf o bleidleisiau cyn Rhagfyr 31 2010 yn ennill yr hawl i gael uwchraddio eu cyfnewidfa i un gyflym. Hefyd, bydd BT yn cyfrannu gwerth £5000 o offer cyfrifiadurol i'r gymuned. Rhaid cael o leiaf 1,000 pleidlais i gael ein hystyried felly gwnewch yn sicr fod pob un yn y tŷ'n pleidleisio.

I pleidleisio ewch i'r wefan yma

<http://www.racetoinfinity.bt.com/>

Rhaid pleidleisio cyn diwedd y mis yma ond mae gennym siawns da gan mai bach ydy'r ardal o'i chymharu ag ardaloedd eraill. Fe allwn gael cysylltiadau chwim i gyfnewidfa Caernarfon o fewn pum mlynedd.

Mae'r ysgolion lleol sydd ar y gyfnewidfa ar hyd y dyffryn ac yng Nghaernarfon i gyd yn ein cefnogi felly fe gaiff sawl un ohonoch hwb i bleidleisio o'r cyfeiriad hwnnw hefyd. Cofiwch bleidleisio cyn diwedd y mis.

CROCHENWAITH Y CYTIAU MOCH

Yn 1985 symudodd Ian a Barbara Winrow o Swydd Efrog i Lanberis gan agor Crochendy'r 'Piggery Pottery' ar safle ddiwydiannol Y Glyn. Dewiswyd yr enw hwnnw ar y crochendy oherwydd mai mewn hen gytiau moch yn Swydd Efrog y cychwynnwyd y busnes bron i ddeugain mlynedd yn ôl.

Erbyn hyn, mae'r busnes wedi ei symud i'r Ddôl Helyg, rhwng Llanrug a Chwm y Glo, ond yn parhau'n un o brif atyniadau twristaidd y fro.

Mae'r crochendy dros y blyneddau wedi canolbwyntio ar gynhyrchu nwyddau fyddai'n apelio at ddyfhyrnwyr plant. Ac fel rhan o'r thema hon, roedd plant yn cael eu hannog i

ymweld â'r crochendy ac yn cael rhoi cynnig ar wneud crochenwaith eu hunain.

Treuliodd sawl plentyn o'r fro eu parti pen-blwydd yn y gweithdy yn Llanberis neu Gwm y Glo yn mwynhau tylino clai a pheintio! A bu nifer o bobl ieuanc y fro yn gweithio yn y gweithdy dros gyfnodau prysuraf y cwmni sef gwyliau'r ysgolion yn yr haf.

Ar y Sadwrn cyntaf ym mis Rhagfyr cynhaliwyd diwrnod agored yn y crochendy gyda stondinau crefft lleol yn cael eu harddangos a'u gwerthu yn ogystal â chynnyrch y crochendy ei hun. Roedd holl elw'r diwrnod yn cael ei gyflwyno i gronfa ysgol Cwm y Glo.

Dymuna gweithwyr yr 'Eco' Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr y papur



Nadolig

Er bod holl ddyled y gwledydd – yn drwm ac yn dreth, am undydd cofiwn ac fe ddathlwn ddydd cin gŵyl yng nghwmni'n gilydd.

DAFYDD WILLIAMS, BETHEL

ECO'R WYDDFA

RHIF 384

NADOLIG / IONAWR 2011

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Erthyglau a newyddion
at ohebwy'r pentref neu i**

Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarl, Llandwrog LL54 5TE
neu: ecorwyddfa@gmail.com

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS SUL, 16 IONAWR

Os gweithwch yn dda
Pwy'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 27 IONAWR

Dyddiad Gasod
NOS SUL, 20 IONAWR
Sefydliad Cofa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi i Law	Dyddiad Plygu	Ble
Chwefror	Ionawr 16	Ionawr 27	Waunfawr

Llythyrau

Osian Tomos
Arolygydd Masnachol
Rheilffordd Llyn Padarn
Gilfach Ddu, Llanberis
LL55 4TY

Annwyl Olygydd,
Mae hi bron yn 40 mlynedd ers i
Llanberis fod yn bentref efo dwy
reilffordd unwaith eto. Bydd
Rheilffordd Llyn Padarn yn
dathlu yr achlysur gyda Gala ar
yr 2ail a 3ydd o Orffennaf 2011, a
bydd dwi injan a fu'n gweithio
dros dro ar yr rheilffordd yn
gwneud y siwrne yn ôl i
Llanberis i ymuno â'r dathliadau.
Bydd un, sef 'Maid Marian', yn
dod yn ôl adref, gan mae injan
chwarel Dinorwig oedd hi'n
wreiddiol. Rydym yn awyddus i
greu arddangosfa o ddyddiau
cynnar y rheilffordd presennol, a
drwy eich papur a gaf i wneud
apêl i unrhyw un sydd efo
lluniau o'r rheilffordd o ddiwedd
y '60au, pan oedd yn cael ei
hailadeiladu, i ganol y 70au.
Byddwn hefyd y falch o dderbyn
lluniau o unrhyw achlysuron
arbennig yn hanes y rheilffordd,
fel gosod y cablau trydan, agor yr
estyniad i Llanberis, ac yn y
blaen. Gallwch gysylltu â ni ar
01286 870549 neu'r cyfeiriad
uchod. Diolch yn fawr am eich
cymorth.

DAVID JONES
Rheolwr Cyffredinol

Yr Wyl Gerdd Dant

Enillydd y raffl a gynhaliwyd
tuag at Wyl Cerdd Dant Bangor
oedd Siân Wheway; roedd yn
derbyn £100. Aeth yr ail wobwr o
£50 i Llyr Gruffydd, Porthaethwy
a'r drydedd wobwr o £25 i Gareth
Jones, Glasinfryn. Mae'r
pwyllgor trefnu yn diolch i bawb
a gefnogodd yr Wyl eleni.

WILLIAM OWEN

Swyddog Cyhoeddusrwydd
Cymdeithas Brodwaith Cymru
Maes Meini
Rhyduchaf, Y Bala
LL23 7SD
01678 520293

Annwyl Ddarllenwyr
Mae Cymdeithas Brodwaith
Cymru yn cynnig ysgoloriaeth o
hyd at £300 i fyfyrwr Cymraeg
sy'n dilyn cwrs tectiliau mewn
coleg. Dyma'r pumed tro i'r
Gymdeithas gynnig yr
ysgoloriaeth hon.

Amcanion ein Cymdeithas yw
hyrwyddo brodwaith drwy
gyfrwng y Gymraeg a threfnir
cyrsgau, darlithoedd,
dosbarthiadau ac
arddangosfeydd mewn
ardaloedd ledled Cymru.

Diffinnir Brodwaith fel
unrhyw waith sydd yn addurno
gan ddefnyddio edau a nodwydd
a cheir amrywiaeth o dechnegau
ar gyfer hyn. Mae gennym
arddangosfa o waith yr aelodau
yn yr Eisteddfod Genedlaethol
bob blwyddyn.

I gael ffurflen gais neu
ychwaneg o wybodaeth
cysylltwch â fi yn y cyfeiriad
uchod.

Y dyddiad cau fydd 30 Ionawr
2011.

MEDWEN CHARLES

Annwyl Olygydd,
Hoffai Gwasanaeth Llyfrgell
Gwynedd, drwy gyfrwng eich
papur bro, dynnu sylw eich
darllenwyr at amnest llyfrau.

Ydych chi wedi peidio â
defnyddio eich gwasanaeth
llyfrgell am fod gennych lyfrau
hwyr iawn neu'n poeni am
ddirwyon? Ydych chi'n teimlo
embaras bod arnoch ddirwyon ar
eich cerdyn? Oes gennych chi
gywilydd bod llyfrau wedi bod
yn llechu yng ngwaelod y
cwpwrdd ers misoedd ac ofn eu
dychwelyd? Peidiwch â phoeni -

RHODDION

£20: Anne Wilson Evans,
Manod, Ffordd Capel Coch,
Llanberis. Er cof am y
ddiweddar Richard Wyn
Evans, Ty'n Buarth,
Brynrefail.

£10: Dilys Baylis, Llanberis;
Goronwy Lewis, 13 Stryd
Ceunant, Llanberis.

£5: Mrs Mair Jones, Cilan,
Bethel.

fu erioed amser gwell i chi
ddychwelyd eich llyfrau, dwys
neu cds hwyr. Bydd eich cyfrif
yn cael ei glirio a gallwch
ddefnyddio y gwasanaeth gwych
yma yn rhad ac am ddim eto
gyda chydwybod clir.

Felly, os ydych am ddychwelyd
eitemau hwyr heb dalu ceiniog,
cwch i'ch llyfrgell leol rhwng 14
Chwefror a 26 Mawrth, bydd
croeso twymgalon yn eich
disgwyll
Yn gywir

NIA GRUFFYDD
Rheolwr Gwasanaethau
Defnyddwyr

Annwyl Olygydd
Codi Canu - Côr Ogwen a'r Cylch
Dymuna aelodau Côr Ogwen a'r
Cylch ddiolch o galon i Mari
Pritchard, Neil Williams a'r
gyfeilyddes, Angharad Wyn, am
y cyfle i ddod at ein gilydd a
phrofi'r wefr fythgofiadwy o
lwyfannu yn Neuadd Dewi Sant,
Caerdydd.

Côr Ogwen a'r Cylch oedd y
lleiaf o lawer mewn nifer ond, yn
ôl y Maestro, Owain Arwel
Hughes, dyma gôr o leisiau da o
safon gerddorol uchel, yn
dehongli'n effeithiol a'r
cyferbyniad o'r emyn Prysgol a
Hafan Gobaith yn iasol.

Llongyfarchiadau ar eu
llwyddiant i Gôr brwdfrydig
Rhos - Côr a lwyddodd i ddenu
ymhell dros gant o aelodau.

Diolch Mari, Neil ac
Angharad.

AELODAU'R CÔR



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

12 Llys Castan, Parc
Menai, Bangor LL57 4FH.

01248 679093




Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd
Bda oddi wrth

Richard S. Humphreys



**ORIEL
CWM**
Cwm-y-glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

Codi Clawr ar Fywyd 'Du a Gwyn' Mozart Deiniolen'



'Mozart Deiniolen' - dyna a gafodd Annette Bryn Parri ei galw pan oedd hi'n ddeg oed. Mae'r gyfeilyddes o Ddeiniolen yn datgelu sawl gwirionedd sy'n ymwneud â'r byd adloniant yng Nghymru yn ei hunangofiant sy'n cael ei gyhoeddi yr wythnos hon gan Y Lolfa. Mae *Bywyd ar Ddu a Gwyn* yn datgelu'r person a welir, fel arfer, y tu ôl i'r piano, ond daw i flaen y llwyfan yn y gyfrol onest a theimladwy hon.

Mae ei bywyd wedi bod ynghlwm â nodau du a gwyn y piano ers pan oedd hi'n bedair oed. Y gri ddiddiwedd ganddi bryd hynny oedd 'Dwi isiopnau!' Ac wedi iddi gael un, doedd dim stop arni. Pan oedd hi'n 7 oed, hi oedd cyfeilyddes Ysgol Deiniolen a bu'n trefnu caneuon Abba ar gyfer cân actol a enillodd yn yr Urdd ac yna a gafodd ei pherfformio ar lwyfan Neuadd Albert, Llundain, a hithau ond yn 10 oed.

Arweiniodd y digwyddiadau cynnar hynny at brofiadau amgenach ac ehangach. Bu'n teithio'r byd yn cyfeilio i fawrion y byd canu - Bryn Terfel, Rhys Meirion a Chôr Glanaethwy yn eu plith. Mae'n

wyneb cyfarwydd ar lwyfannau eisteddfodau bach a mawr, er iddi benderfynu rhoi'r gorau i gyfeilio yn yr Urdd a'r Genedlaethol am wahanol resymau. Cafodd brofiadau annifyr yn rhai o'r prif wyliau cerddorol, a chafodd ei galw'n amhroffesiynol un tro, a hynny ar gam yn llwyr; ceisiwyd ei gwahardd rhag cystadlu a chyfeilio mewn un eisteddfod; ac un o'r profiadau mwyaf rhwystredig a gafodd, ar ôl bod yn ymarfer ar ddarn cyfeilio anodd iawn am ddiwrnodau i gystadlu aeth offerynnol, oedd cael ar deall ar ddiwrnod y gystadlu aeth fod yr offerynnwr hwnnw bellach ddim yn cystadlu!

'Ond', meddai Annette, 'mae'n rhaid cymryd y du efo'r gwyn. Mae'r daith wrth ysgrifennu'r hunangofiant hwn wedi bod yn un emosiynol iawn, wrth ddwyn i gof y llon a'r lledf.'

Wrth ddarllen yr hanesion, down i adnabod Annette fel cymeriad hynaws, caredig, sensitif, a llawn hiwmor. Mae codi arian at elusennau meis Tŷ Gobaith yn bwysig iddi, a chafodd brofiadau rhyfeddol wrth gynnal sesiynau cerdd gyda phlant ag anableddau dwys, wrth i un bachgen, nad oedd wedi dangos unrhyw emosiwn cyn hynny, ymateb â gwên fawr ar ei wyneb pan glywodd Annette yn canu'r piano. 'Gwyrthiol', oedd sylw'r athrawes.

Yn ôl Annette, 'Mae gweithio â phlant ag anghenion dwys yn union fel chwilio am drysor gwerthfawr. Mae'n anodd cael ato, ond mae o yna yn rhywle. Ac wedi i chi ei ddarganfod, mae o fel aur...'

Ar y llaw arall, mae hiwmor yn yr ysgrifennu hefyd — yr achlysuron hynny y bu'n rhaid ail-recordio mewn stiwdio

deledu oherwydd pyliau o chwerthin di-reolaeth, a'r sawl tro trwstan a fu wrth recordio yn stiwdio Sain. Ond nid yw'n barod i ddatgelu'r cyfrinachau i gyd, chwaith! Ceir hanesion doniol wrth deithio gyda Chôr y Traeth a Cnoc a Jinsan...

A hithau heb gyrraedd ei

hanner cant eto, mae eisoes wedi cyflawni cymaint, fel cyfeilyddes, arweinyddes ac athrawes. Ac er iddi deithio i bedwar ban byd a gweithio gyda cherddorion amlycaf Cymru, yr hyn sydd bwysicaf oll iddi yw bod yn wraig ac yn fam, a bod adref yn ei chynefin.

Cyngerdd y Corau



AMBIWLANS AWYR CYMRU YN ELWA O'R YMDRECH

Codwyd £552 yng Nghyngerdd y Corau a gynhaliwyd yn y Mynydd Gwefru, Llanberis, ar Hydref 15ed. Cyflwynwyd y siec i Elen Medi, 'Trefnydd Codi Arian', Ambiwllans Awyr Gogledd Cymru (ar y dde yn y rhes gefn) gan rai o barti canu plant Ysgol Dolbadarn, Llanberis.

Yn sefyll o'r chwith i'r dde o flaen yr hofrennydd mae Awen Thomas, Paramedic; Margaret Jones a Dilys Mai Roberts, cynrychiolwyr Lleisiau Lliwedd; Arwel Jones ac Emerson Hughes, cynrychiolwyr Côr Meibion Dyffryn Peris. Cymerwyd rhan gan Gôr Meibion Llanfair-ym-Muallt hefyd. Roedd y neuadd yn orlawn a diolchir i bawb a gefnogodd y cyngerdd.



Hywel Williams

Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth

8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076

neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248-372948

williamshv@parliament.uk



Alun Ffred Jones

Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth

8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076

neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248-372948

alunffred.jones@cymru.gov.uk

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL-07778127394)



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

GWELLHAD BUAN. Dymunwn wellhad buan i Mrs Megan Olwen Jones, 21 Dôl Afon, sydd heb fod yn dda ers rhai wythnosau. Hefyd anfonwn ein cofion at Mrs Mair Williams, Elidir View, Bwlch, sydd wedi dychwelyd adref o Gartref Cerrig-yr-afon, Y Felinheli.

TWYWDD GARW, Dymunwn ddiolch yn ddiffuant i John, 3 Rhes Bryn, am wirfoddoli i roi graean i lawr Allt Capel ac Allt Bryn yn ystod yr wythnos

rewllyd ddiwethaf.

CYFARCHION YR WYL. Gan na fydd yn anfon cardiau eleni, mae Mrs Mair Williams, Elidir View, yn anfon ei dymuniadau gorau am Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'i ffrindiau a'i chymdogion.

CYFARCHION Y TYMOR. Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref.

DIOLCH i bawb sydd wedi anfon newyddion i'r Eco drwy gydol y flwyddyn.

CANLYNIADAU EISTEDDFOD PENTREFI LLANRUG A CHWMYGLO 2010

CANLYNIADAU LLWYFAN
Unawd Dosbarth Derbyn: 1af Buddug; 2il Erin Wyn; 3ydd Caio; *Llefaru Unigol Dosbarth Derbyn*: 1af Erin Wyn; 2il Osian; 3ydd Caio; *Unawd Blwyddyn 1 a 2*: 1af Tomi; 2il Nanw; 3ydd Nel; *Llefaru Unigol Blwyddyn 1 a 2*: 1af Enlli; 2il Deian; 3ydd Mali; *Dawnsio Disgo i Unigolyn neu Grŵp Cynradd / Uwchradd*: 1af Angylion Kelly; 2il Angylion Bach Kelly.

Côr Babanod hyd at flwyddyn 2: 1af Parti Ruth; *Parti Dawns Werin Cynradd / Uwchradd*: 1af Parti Robin; 2il Parti Siôn Eifion; *Unawd Blwyddyn 3 a 4*: 1af Leisa; 2il Osian; 3ydd Elain; *Llefaru Unigol Blwyddyn 3 a 4*: 1af Leisa; 2il Moli; 3ydd Elain; *Grŵp Pop Cynradd / Uwchradd*: Cyd. 1af Dim Mynadd a Candis Clên; *Deuawd Cynradd*: 1af Llinos a Lleucu; 2il Ceri ac Iwan; *Llefaru Unigol Blwyddyn 5 a 6*: 1af Beca; 2il Miriam; Cyd 3ydd Gethin, Cai a Ceri; *Unawd Cân Werin Cynradd / Uwchradd*: 1af Leisa; 2il Tomi; *Sgets Cynradd*: 1af Joban Newydd; 2il Yr Angladd; 3ydd Fake Tan; *Sgets Uwchradd*: 1af Y Bedydd; 2il Y Clwb Colli Pwysau; 3ydd Y Cyfwelliad; *Unawd Blwyddyn 5 a 6*: 1af Ceri; 2il Miriam; 3ydd Llinos a Lleucu; *Unawd Offerynnol Cynradd*: 1af Ceri; 2il Dcian; 3ydd Heledd; *Parti Llefaru Cynradd*: 1af Parti Elain; 2il Parti'r Slecpcover; 3ydd Parti Gethin; *Parti / Côr Unsain Cynradd Blynnyddoedd 3 - 6*: 1af Côr Llanrug; 2il Côr Cwm-y-glo; *Unawd Gerdd Dant Cynradd / Uwchradd*: 1af Ceri; 2il Lleucu; 3ydd Miriam a Leisa; *Cân Ysgafn / Grŵp Pop Uwchradd*: 1af Llanrug Dda; *Unawd Offerynnol Uwchradd*: 1af Math; 2il Rhodri Llyn; 3ydd Llywelyn; *Deuawd Uwchradd*: 1af Mari a Hannah; *Llefaru Unigol*

Uwchradd: 1af Llio ac Anna; 2il Elain; Cyd.3ydd Math ac Osian; *Unawd Uwchradd*: Cyd 1af Rhodri Llyn a Beca; 2il Anna; Cyd.3ydd Mari a Gwern; *Parti Llefaru Uwchradd*: 1af Merched Beca; 2il Parti Llew; *Parti / Côr Uwchradd / Agored*: 1af Merched Beca; 2il Parti Llew.

ENILLWYR Y TLYSAU LLWYFAN

Cadair Lowri i Enillydd yr Unawd ym Mlynnyddoedd 1 a 2: Tomi Llywelyn;



Cwpan W. Park Jones am y Cyflwyniad Llefaru / Llafar Gorau (Cynradd): Leisa Gwenllian; *Tlws Bwlchgrwnog am y Perfformiad Cerddorol Cynradd Gorau*: Leisa Gwenllian;



Tlws Er Cof am Eddie a Morven Lennon am y Perfformiad



Cerddorol Uwchradd Gorau: Math Roberts; *Rhod Haf Roberts i'r Cyflwyniad Llefaru / Llafar Gorau (Uwchradd)*: Elain Sian Roberts.



ARLUNIO

Pob oedran: Unrhyw waith yn seiliedig ar: Chwaraeon, Gofod, Tân Gwylt, Cestyll

Arlunio Meithrin 1. Alaw Hughes; 2. Twm Brookes; 3. Fflur Lloyd Jones.

Derbyn 1. Beth Whiteside Thomas; 2. Caio Sion Jones; 3. Charlie Almond.

Blwyddyn 1 1. Benjamin Ifan; 2. Mali Elin Brookes; 3. Mared Llwyd Roberts.

Blwyddyn 2 1. Tomi Llywelyn; 2. Nanw Llwyd & Elis Gruffudd Edwards; 3. Elis Gruffudd Edwards & Elin Daniel Parry.

Blwyddyn 3 1. Osian Land; 2. Guto Whiteside Thomas; 3. Cian Gibbard

Blwyddyn 4 1. Leisa Gwenllian; 2. Moli Wyn Pritchard; 3. Anna Whiteside Thomas.

Blwyddyn 5 1. Mathew Wiggins; 2. Cai Gruffudd Edwards.

Blwyddyn 6 1. Sion Eifion Land; 2. Gethin Wyn Jones; 3. Lleucu Briallt Brookes & Llinos Elin Roberts

Blwyddyn 7 ac 8 1. Gwydion Rhys Williams; 2. Osian Gruffudd Edwards.

Blwyddyn 9 a 10 1. Mared Lois Williams & Anna Wyn Jones; 2. Iwan Jones; 3. Anna Wyn Jones.

Blwyddyn 11, 12 ac 13 1. Llywelyn Williams.

Cwpan Emma Bernard i'r arlunydd gorau: Sion Eifion Land.

TRI DIMENSIWN

Meithrin / Derbyn (Mwclis) 1. Mared Enlli; 2. Caio Sion Jones; 3. Beth Whiteside Thomas.

Blwyddyn 1 a 2 (Addurno Ffram) 1. Cari Wyn Pritchard; 2. Aled Huw Jones; 3. Dafydd Bryn Jones.

Blwyddyn 3 a 4 (Bocs Trysor) 1. Elain Williams; 2. Moli Wyn Pritchard; 3. Leia Nel Williams

Blwyddyn 5 a 6 (Cadw mi gei) 1. Teleri Medi; 2. Miriam Catrin; 3.

Megan Wyn Pritchard.

Uwchradd (Cynllunio tlws unrhyw gystadleuaeth) 1. Gwydion Rhys Williams; 2. Math Roberts; 3. Anna Wyn Jones.

TECSTILIAU

Adran Babanod (Addurno Mat Bwrdd) 1. Beth Whiteside Thomas & Mali Brookes & Elis Edwards & Erin Gibbard; 2. Sara Halliday & Beca Fon & Alaw Hughes.

Adran Iau (Cas Pensiliau) 1. Osian Efans & Guto Whiteside Thomas & Elain Ellis & Anna Whiteside Thomas & Teleri Medi & Efa Halliday & Llinos Elin Roberts & Cian Gibbard; 2. Gethin Wyn Jones & Sion Eifion Land & Osian Land & Ceri Jones & Beca Llwyd.

Uwchradd (Unrhyw eitem) 1. Anna Wyn Jones.

Agored (Unrhyw eitem) 1. Gill Brown.

COGINIO

Meithrin (Derbyn) (Cebab llysiau neu ffrwythau) 1. Catrin Beech, Mared Enlli & Beth Whiteside Thomas; 2. Luned Llwyd, Twm Brookes & Osian Llyfni; 3. Caio Sion, Erin Gibbard & Alaw Angharad.

Blwyddyn 1 a 2 (Flapjacs) 1. Cari Pritchard; 2. Mali Brookes & Mared Llwyd.

Blwyddyn 3 a 4 (Brechdan Agored) 1. Gwion Efans & Moli Wyn Pritchard; 2. Anna Whiteside Thomas & Guto Whiteside Thomas.

Blwyddyn 5 a 6 (Powlen a salad) 1. Sion Eifion Land & Robin Whiteside Thomas; 2. Gethin Wyn Jones & Beca Llwyd & Megan Wyn Pritchard; 3. Osian Efans & Miriam Catrin & Teleri Medi

Blwyddyn 7,8 a 9 (Tiramisw) 1. Math Roberts; 2. Gwydion Rhys Williams; 3. Math Emyr.

Blwyddyn 10,11,12 a 13 (Pryd traddodiadol o unrhyw wlad) 1. Elain Roberts; 2. Llio Emyr; 3. Anna Wyn Jones.

Agored - Merched (Cwrs Cyntaf) 1. Eirianwen Thomas.

Agored - Dynion (Pwddin Bara Menyn) 1. Irfon Jones & Dyfed Whiteside Thomas; 2. Dafydd Whiteside Thomas; 3. Dafydd Roberts.

Agored Jam/Marmalêd 1. Eirianwen Thomas; 2. Gill Brown; 3. Gill Brown.

Agored Saww Afal, Mint, Cranberi 1. Teleri Medi; 2. Cari Wyn Pritchard & Haf Roberts.

Agored Smwddi 1. Elain Roberts; 2. Llio Emyr; 3. Eirianwen Thomas.

Chutney 1. Miriam Catrin; 2. Miriam Catrin; 3. Miriam Catrin.

GOSOD BLODAU

Agored (Torch Nadolig) 1. Gill Brown & Megan Pritchard; 2. Mair Parry & Meirwen Lloyd.

FFOTOGRAFFIAETH

(Unrhyw lun ar y thema 'Eira') 1. Irfon Jones; 2. Gill Brown; 3. Megan Wyn Pritchard.

DYLUNIAD

CYFRIFIADUROL

Adran Babanod (Cymeriad neu Anifail o Chwedl) 1. Erin Gibbard; 2. Deian Llyfni; 3. Beth Whiteside.

Adran Iau (Cymeriad neu Anifail o Chwedl) 1. Ceri Fflur Griffiths; 2. Guto Whiteside Thomas; 3. Sion Eifion Land & Osian Land.

Uwchradd (Cymeriad neu Anifail o Chwedl) 1. Anna Wyn Jones.



Sion Eifion o Flwyddyn 6 yn ennill Cwpan Emma Bernard am y gwaith celf gorau.

Y GADAI'R A THLWS YR IFANC



Ffion Erin Williams enillydd y Gadair a Math Emyr enillydd Tlws yr Ifanc..



Côr Ysgol Cwm y Glo yn Canu 'Dwi Isho Bod Fel Chi'.

CANLYNIADAU LLÊN

Cystadleuaeth Y Gadair: 1af Ffion Erin Williams; 2il Llio Emyr; *Tlws yr Ifanc:* Math Emyr; 2il Hanna Tulliver; *Blwyddyn 3:* 1af Tomos Roberts; 2il Erin Williams; 3ydd Guto Thomas; *Blwyddyn 4:* 1af Efa; 2il Leisa; 3ydd Elain Elis; *Blwyddyn 5:* 1af Miriam Catrin; 2il Mathew Wiggins; 3ydd Ruby; *Blwyddyn 6:* 1af Draig Cymru; Cyd 2il Popcorn a Miley Cyrus Jnr; 3ydd Bob y Brocoli.



Arlunio Blwyddyn 3 - 1af Osian Land, 2ail Guto Thomas a 3ydd Cian Gibbard.



Y plant lleiaf yn canu ac yn adrodd.



Angylion Kelly yn dawnsio disgo.



Bechgyn yr ysgol Uwchradd yn adrodd.



Beca, Beth a Mali yn cael eu gwobrau am waith Tecstilïau.



**Nadolig Llawn
A Blwyddyn Newydd Dda
i holl ddarllenwyr yr Eco**

Hoffwn ddiolch i'n
cwsmeriaid lleol am eu
cefnogaeth trwy gydol y
flwyddyn!



Caban

Caffi Caban, Yr Han Vagol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01206 685 500 (Gaffi) 01206 685 462 (Swyddfa)

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro
Eco'r Wyddfa oddi wrth bawb ym
musnes llefrith

**EIRWYN
WILLIAMS
LLWYNCOED
CWM-Y-GLO**

Ffôn: (01286) 870563

Diolch am eich cefnogaeth
trwy'r flwyddyn



LLANRUG

Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

PROFEDIGAETH. Bu farw Gerry McGuinness, Ardwyn, Lôn Groes, ar ôl gwaeledd byr. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'i wraig, Marion, y plant, Gareth, Patrick, Sandra ac Amanda a'u teuluoedd. Bydd yn golled fawr i chi i gyd.

BRYSIWCH WELLA. Da yw clywed fod Mrs Gwennie Morris, Clydfan; Mrs Peggy Williams, Bron yr Wyddfa, Ffordd Glanmoelyn; Mr Maldwyn Jones, Bryn Heli a Mrs Enid Whiteside Thomas, Delwar, Pontrhythallt i gyd yn gwella yn dilyn llawdriniaethau. Pob dymuniad dai i chi i gyd.

DYMUNIADAU'R NADOLIG. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda iawn i bawb
MERCHED Y WAWR. Cyfarfu'r gangen nos Fawrth, 14 Rhagfyr - ceir yr hanes yn y rhifyn nesaf. Dymunir Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd lewyrchus i bawb.

Nos Fawrth, 11 Ionawr, treulir noson yn Palas Print, Caernarfon.

Y BAND. Llongyfarchiadau i ddau fand Llanrug ar eu llwyddiant diweddar yng nghystadleuaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru yn Llandudno. Dan arweiniad Paul Hughes, daeth y band hŷn yn fuddugol yn Adran 2, gyda Gareth Hughes, chwaraewr iwffoniwm y band, yn ennill y wobr am yr unawdydd gorau yn yr adran.

Rebecca Roberts oedd yn arwain y Band Iau; y mwyafrif ohonynt yn ddisgyblion ysgolion cynradd, ac yn cystadlu am y tro cyntaf. Daethant yn drydydd yn eu dosbarth, a byddant yn sicr o elwa o'r profiad o ymddangos ar lwyfan mewn cystadleuaeth o'r fath.

DIOLCH. Dymuna Mrs Enid Whiteside Thomas, Dolwar, Pontrhythallt, ddiolch o galon i'w theulu, ei chymdogion a'i chyfeillion am eu caredigrwydd tuag ati tra'n derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

CAPEL Y RHOS. Cynhelir gwasanaeth teulu fore Dydd Nadolig am 9 o'r gloch. Bydd croeso i'r plant ddod ag un anrheg gyda hwy i'w ddangos.

Ni fydd gwasanaeth fore Sul,

Mwy o'r 'Steddfod



Genethod yr ysgol Uwchradd yn adrodd.

Rhagfyr 26ain- Dydd Gŵyl San Steffan.

PENBLWYDD YN 95 OED

Bu Cledwyn Williams, gynt o Tŷ'r Ysgol, Llanrug, yn mwynhau agor cardiau ac anrhegion ar ei ben-blwydd yn 95. Cafodd gyfle i sgwrsio ac adrodd a chanu ei ffefryn 'Nico Annwyl', gan gofio'r holl

benillion. Mae Mr Williams yng nghartref St Tysilio, Llanfairpwll. Diolchodd i bawb am y danteithion a'u presenoldeb. Roedd yn sôn am yr Ail Ryfel Byd a pha mor falch yr oedd o gael dod adref a phwysleisiodd mor bwysig oedd y llinell o'i adroddiad, 'Mae eu llwch yn heddwch hon.'



DODREFN a LLORIAU PERKINS SÊL Y GAEAF

Gwasanaeth
Mesur a Ffitio

Yn Dechrau Am 10o'r gloch
Dydd Mawrth Rhagfyr 28

**10% ODDI AR BRISIAU'R SÊL
HEFO'R HYSBYSEB HWN
rhwng 28-31 o Ragfyr**

2 Canolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040

Yn ogystal a Dodrefn, cofiwch hefyd am ein dewis **MAWR** o GARPEDI a LLORIAU PREN

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth



Y DYN CIG

BRYNAFON, LLANRUG

675190 • 673188

Symudol: **07798 718188**

Gwasanaeth lleol ar gyfer

Partion-Priodasau

Pen-blwydd • Bedydd • Dawns • Gwyliau
RHOSTIO MOCHYN ar gyfer pob achlysur

Cig o ffermydd lleol, Partion rhwng 40 a 400!

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â: **John Hughes Jones** ar un o'r rhifau uchod



**Cyfarchion
Nadolig
LLANRUG**

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

WENDY

a

STAFF

TAFARN

PENBONT

LLANRUG

Lle braf a chwmni difyr
dros wyliau'r Nadolig a'r
Flwyddyn Newydd

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Dave, Bobbie a staff y

GLYNTWROG

LLANRUG

671191

Bwyd ardderchog
am brisiau rhesymol

Bydd croeso
cynnes yma
dros yr ŵyl



**DYMUNA
GWYNFA A MARGARET
PRITCHARD**

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD

LLANRUG


Ffôn 872263

NADOLIG LLAWEN

A

BLWYDDYN NEWYDD DDA

I CHWI OLL



**FFAIR
NADOLIG**

Rhagfyr 3-4-5 | 10-11-12 | 17-18-19

Gwener 11.00-20.00 Sadwrn a Sul 10.00-18.00

SELARDDURNIADAU NADOLIG

Anrhegion • Planhigion • Bwlbiau • Rhithoedd a mwy



BLODAU LIENEKE

Cae Rhydau Pontrug LL55 2TN

Mobile- 07510 511 631

Web: <http://www.blomstervill.no>, • e-bost- blomstervill@robin.no

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
in cwsmeriaid i gyd oddi wrth

IOLA A STAFF

SIOP CHIPS TEGFAN

Y Sgwâr, LLANRUG

07948 574 354

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Gwynfryn a Valerie Lloyd



**4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 674781

- Defnyddir peiriant sugno i lanhau
- Simneau glân am bris rhesymol

**CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH
DENNIS ROBERTS**

(Glyn Roberts a'i Fab)

DYNION GLO LLANRUG

Ffôn: 675043

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

PAT AC EDGAR

SWYDDFA'R POST

LLANRUG

Ffôn: (01286) 672422



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Pryd i Bawb



Arlwyo at bob
achlysur yn
unrhyw leoliad
Bwffe blasus o safon

- Priodas •
- Cyfarfodydd busnes
- Bedydd/Parti/Te
angladd
- Basged Picnic
- Bwyd yn unig neu
gwasanaeth llawn

Cerid Mackinnon
Ffôn: 01286 673190
Symudol: 07774 925502

Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid
ac i bawb ym mro
Eco'r Wyddfa



oddi wrth

WAVELL'S

**Bryn ac
Angela Williams**

CIGYDD

**LONDON HOUSE
LLANRUG**

Ffôn:
Caernarfon 673574

PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI

Darren Jones

Contractiwr Teilsio

CEGINAU

**YSTAFELLOEDD
YMOLCHI**

A LLORIAU

9 Rhos Rug
Llanrug Caernarfon

(01286) 669090
Mobile-07894818783



**CYFARCHION
NADOLIG
LLANRUG**



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i
bawb oddi wrth

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG


677362

neu symudol

07979

620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisïau cystadleuol



**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

Nadolig Llawen a
Blwyddyn
Newydd dda oddi
wrth bawb yng



NGHARTREF



**Ffordd yr Orsaf
LLANRUG**

Ffôn: C'fon 674652

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Gwynfryn a Valerie Lloyd



**4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 674781

- Defnyddir peiriant sugno i lanhau
- Simneau glân am bris rhesymol



J.M. JONES

**a'i Feibion
LLANRUG**

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref

01248 679089 • 01286 830996

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

ARVONIA



- Tocynnau Anrheg Gwyliau ar
gael yma
- Gofynnwch am ein 'Brochure'
Gwyliau Newydd

Y Sgwâr, Llanrug

Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk
Gwefan: www.arvonias.co.uk

Grŵp Gyrfa Cymru â'u calonnau ar gerdded

Cododd aelodau staff o Gyrfa Cymru arian i Sefydliad Prydeinig y Galon trwy gerdded i fyni'r Wyddfa yn ddiweddar.

Roeddent yn awyddus i godi arian i achub bywydau ac i gefnogi ymgyrch Sefydliad Prydeinig y Galon yn erbyn clefyd y galon - sy'n lladd mwy o bobl nag unrhyw beth arall yn y DU.

Meddai Nerys Bourne o Ganolfan Gyrfaedd Gyrfa Cymru ym Mangor: 'Mi benderfynasom ni godi arian i Sefydliad Prydeinig y Galon am fod cydweithiwr a ffrind da inni, Alan Pritchard, wedi gorfod rhoi'r gorau i weithio oherwydd salwch yn sgil clefyd y galon.

Pan oedd Alan yn 14 cafodd drawsblaniad calon ond dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'r galon wedi dirywio sydd wedi golygu na allai barhau i weithio fel Cynghorydd Gyrfa. Mae Alan, sy'n 36 mlwydd oed, yn byw yn Llanberis gyda'i wraig, Teleri, a dau fab ifanc, Tomos sy'n bump a Rhys sy'n ddyflwydd. Heb gefnogaeth yr uned gardiaidd yn Ysbyty

Gwynedd byddai ansawdd ei fywyd yn sâl iawn. Ar hyn o bryd mae'n cael cefnogaeth gan Ysbyty Gwynedd ac uned arbenigol yn Ysbyty Queen Elizabeth yn Birmingham ac yn gobeithio cael trawsblaniad calon arall.

Roedden ni eisiau gwneud rhywbeth i helpu pobol fel Alan, i gefnogi ymchwil pellach i atal a thrin clefyd y galon. Rydym wedi codi £1,271 i waith hanfodol Sefydliad Prydeinig y Galon a hoffwn ddiolch i'r holl staff a gymrodd ran.'

Meddai Mabon ap Gwynfor, Rheolwr Gwirfoddol Codi Arian ar gyfer Sefydliad Prydeinig y Galon:

'Gall clefyd y galon effeithio ar unrhyw un, ifanc, hen, dynion neu ferched - dydi e ddim yn gwahaniaethu. Rydyn ni i gyd yn adnabod rhywun y mae clefyd y galon wedi effeithio arnyn nhw. Rydyn ni'n wirioneddol yn gwerthfawrogi'r ymdrech anferth mae pobl fel staff Gyrfa Cymru yn ei wneud i godi arian i'r elusen er mwyn inni allu parhau gyda'r gwaith sy'n achub bywydau.'

Arddangosfa a gwerthiant yn Amgueddfa ac Oriel Gwynedd

Cynhelir arddangosfa sy'n mynd at galon celfyddyd, prydferthwch a gwerth llyfrau yn Amgueddfa ac Oriel Gwynedd, Bangor hyd 15 Ionawr, 2011.

Arddangosfa a gwerthiant Gwasg Gregynog

Mae'r arddangosfa yn cynnwys printiau prin a gwreiddiol o'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill, gan gynnwys gwaith Kyffin Williams, Rigby Graham a Colin See-Paynton. Bydd cyfle hefyd i weld gwasg law fechan a gwybodaeth am y grefft brint traddodiadol a chreu llyfrau.

Mae amryw o lyfrau yn cael ei harddangos ac ar gael i'w prynu am bris arbennig.

ceiliLLYFR

Mae'r rhan yma o'r arddangosfa yn llwyfan i dri artist ddangos yn eu ffyrdd unigryw eu hunain sut mae'r cysyniad o lyfrau ac

adrodd straeon yn eu hysbrydoli drwy greu eitemau unigryw a difyr.

Becky Adams - mae pob darn o gelf mae'n ei gynhyrchu yn stori ynddo'i hun, gyda phob pwyth yn adrodd cyfrolau.

Emma Hobbins - dyma gyfres o eitemau wedi eu creu gan yr artist wedi iddi gael ei hysbrydoli gan bethau bob dydd, pob un gyda'i hanes ei hun i'w adrodd.

Alison Mercer - mae'r artist yn rhannu ei meddyliau a'i syniadau drwy gyfres o ddyddiaduron, lluniau a llyfrau.

Mae Amgueddfa ac Oriel Gwynedd ar agor pob dydd Sadwrn 10.30am-4.30pm a dydd Mawrth-Gwener, 12.30-4.30pm. Mynediad am ddim. Am fwy o wybodaeth ffoniwch 01248 353368 neu ewch i'r wefan www.gwynedd.gov.uk/amgueddfeydd

Myfyrion Calan 2011

Sôn mae'r gwleidydd fel mai newydd yw ei faniffesto nawr, er mwyn ffyniant gwell i'r broydd gydweithredu 'i syniad mawr!

Ond, arfer hen yw cymortha pan oedd gwreng yn cyd-ddyheu, calon hyn oedd lle a chartra' yn eu craidd o fore'r creu.

Ceisio deall gwe cymdeithas rhyngberthynas byd mewn rhod, Crewr Cread - a grym eirias hen Y Llyfr a hanfod bod!

Calon Ionawr unwaith eto, hicyn arall taith y sioe, ond i'r praidid nid ydyw deffro heddiw, fory, - ond fel ddoe!

Mor 'berthnasol' ydyw 'amser', almanaciau Duw a dyn... ystod fer sydd ar ein cyfer ond maent ran o'r oesol lun.

Syniad Mawr yw Clec y Cychwyn, Syniad Mawr yw Eden drist, Syniad Mawr yw bro a pherthyn Syniad Mwy - yw Iesu Grist...

NORMAN CLOSS, FACH-WEN



HANES A HWYL



trwy gydol y gaeaf!




Sion Corn!
21.12.2010



Arddangosfa ffotograffiaeth
CHWAREL



Trenau Bach
24. 2. 2011 - 27. 2. 2011



Crefftau unigryw



Atyniadau cynnes



Caffi clyd

AMSEROEDD AGOR Y GAEAF

Tachwedd - Pasg
Sul - Gwener 10am-4pm
(Ar gau Sadwrnau
Cyfnod y Nadolig
AR GAU: 24-27.12.2010 & 1-3.1.2011)

CYNNIG ARBENNIG

Gawl cartref a
brechdan tŵci a
llugaeron
£5.75

Nadolig

Yn cin siop canwn cin siant, - ameniwn
emynau cin moliant;
Â chôr y lleisiwn ein chwant,
Gwariwn i hybu gwariant.

DAFYDD WHITESIDE THOMAS, LLANRUG

MYNEDIAD
AM DDIM!

Amgueddfa Lechi Cymru
Llanberis

01286 870630

www.amgueddfacymru.ac.uk



WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CYFARCHION Y NADOLIG. Dymuna Rol Williams, Ardwyn, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd lewyrchus i'w deulu a'i gyfeillion. Ni fydd yn anfon cardiau ond yn cyfrannu i elusen lleol.

PRIODAS. Anfonwn ein llongyfarchion a'n dymuniadau gorau i Mike Thomas, Dôl Erddi, ar ei briodas ag Alison o Fanceinion. Yma yn y Waun y maent wedi ymgartrefu.

DYWEDDIO.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Alison Owen, Tŷ yr Efail, ar ei dyweddiad â Steven Jones o Ben-y-groes.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Alwyn a Valmai, Garreg Fawr, ar ddod yn daid a nain i Enlli Wyn, merch fach i Iona ac Emlyn a chwaer fach i Non a Tesni.

LLWYDDIANT

EISTEDDFODOL.

Llongyfarchiadau mawr i Mared Ynyr, Dolwar Fach, sy'n ddisgybl Blwyddyn 9, ar ennill gwobr Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail.

YMDDEOLIAD hapus i Mrs Pat Parry, 1 Bryn Golau, sydd wedi bod yn garedig iawn wrth lawer tra bu'n weithwraig gymdeithasol ddiplino yn yr ardal.

ANFONWN ein dymuniadau da am wellhad buan i amryw o drigolion y pentref sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar.

CROESAWN Mrs Sheila Roberts, Llwyn Celyn; Mrs Grace Dawson, Tref Eilian a Mrs Doris Roberts, Dwyrws, adref ar ôl dreulio cyfnod yn yr ysbyty. Hefyd bu Cadi Wyn, merch fach Emma a Chris, Stad Bro Waun yn derbyn triniaeth i'w llaw yn ysbyty Alder Hay, Lerpwl. Anfonwn ein dymuniadau da am wellhad buan i Doctor Eysyllt Llwyd, un o'n meddygon teulu, sydd wedi cael triniaeth yn yr

ysbyty.

YN YR YSBYTY ar hyn o bryd mae Mrs Sarah Lewis, Tref Eilian. Gobeithio y byddwch yn gwella ac yn cael dod adref yn fuan.

CYDYMDEIMLO. Ychydig fisoedd yn ôl roeddem yn cydymdeimlo â Mrs Annie Jones, Bod Arthur, ar golli ei brawd, anfonwn ein cydymdeimlad ati eto yn ei phrofedigaeth o golli brawd arall.

CYDYMDEIMLWN hefyd â Dylan Jones a theulu 9 Bryn Golau, yn eu profedigaeth o golli brawd Dylan.

MERCHED Y WAWR.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o Ferched y Wawr nos Iau, 27 Ionawr 2011, yn y Ganolfan pryd y bydd Elfyn Thomas o gwmni Seren Arian yn ein diddanu. Croeso cynnes i bawb.

CYFARCHION Y NADOLIG. Dymunwn Nadolig Llawen i chi i gyd, ddarlennwyr yr Eco, ac anfonwn ein cofion dros yr Wyl at y rhai sy'n gaeth i'w cartrefi ac hefyd i'r rhai sydd yn aros mewn cartrefi preswyl ar hyn o bryd.

DIWEDD MIS IONAWR. Ni drigolion y Waunfawr fydd yn gyfrifol am blygu yr Eco. Fel arfer mae cefnogaeth dda i'r gwaith a gobeithiaf y bydd yr hen griw, a rhai newydd, yn gallu dod i festri Eglwys y Waun i ymgymryd â'r gwaith. Byddaf yn cysylltu â chi gyda manylion y dyddiad a'r amser. Diolch yn fawr.

APÊL. Mae Côr y Waun angen cyfeilydd i gychwyn ar y gwaith ddechrau mis Ionawr. Maent yn griw hwyliog sydd yn ymarfer bob nos Fawrth o 7.30pm ymlaen yn festri Eglwys y Waun, Waunfawr. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Heulwen 01286650388, neu Linda ar 07976878659. Edrychwn ymlaen at glywed gennych. Diolch.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

Cynhaliwyd cyfarfod Cyngor Cymuned Waunfawr yng Nghanolfan Waunfawr am 7.15 ym 24ain o Dachwedd 2010. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

Materion Caeathro - Dim mater wedi ei godi.

Materion Waunfawr - Gerddi Bach - Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chanlyniadau'r holiadur diweddar. Cyngor wedi cysylltu ac Unllais Cymru i ofyn arweiniad. Penderfynwyd fod y Clerc i nodi'r opsiynau i gyd i lawr, a'u trafod ymhellach yn ein cyfarfod nesaf a rhoi gwahoddiad i aelod o Cynllunio Cyngor Gwynedd i'r Cyfarfod.

Trafodwyd mater y coed ger y gofeb yn y pentref, disgwyl ymateb Cyngor Gwynedd.

Trafodwyd cyflwr y llochesau bws, (ger yr hen Bost) angen ei beintio; Graffiti ar y lloches yn Croes y Waun, wedi cael ei beintio.

Y Fynwent - Aelodau Pwyllgor y Fynwent angen cyfarfod yn fuan.

Llwybrau troed y pentref - Angen giât newydd ar lwybr rhif 15 - wedi hysbysu Cyngor Gwynedd. Cyfarfod Rhwydwaith Gwyrfa dechrau Rhagfyr.

Cynllunio - Roedd un cais cynllunio newydd i law doedd

dim gwrthwynebiad.

Roedd un cais cynllunio wedi derbyn cymeradwyaeth gan Gyngor Gwynedd.

Materion eraill a godwyd yn ystod y cyfarfod:

Ffordd Osgoi Bontnewydd - Trafodwyd y mater a phenderfynwyd peidio gwneud penderfyniad fel Cyngor Cymuned, ond pwysleiswyd fod yn bwysig i'r Cynghorwyr ac aelodau'r Cyhoedd i lenwi a danfon yr holiaduron unigol yn ôl i'r Swyddfa Gymreig. Mynegwyd pryder gan un o'r Cynghorwyr fod peiriannau mawr yn mynd a'r hyd y ffordd ger Ael y Bryn, oes angen peiriannau mor fawr? Mynd i ofyn i Gyngor Gwynedd a oes modd rhoi amodau mewn hawliau cynllunio ar gyfer ffyrdd cul fel hyn yn y dyfodol. Angen bin ysbwriel newydd yn y Ganolfan.

Biniau Baw Cŵn - Angen cadw golwg a phawb i ddefnyddio'r biniau pwrpasol os gwelwch yn dda.

Problem fandaliaeth yn y pentref - Mae'r Cyngor Cymuned yn apelio ar i'r Cyhoedd, os yn bryderus am unrhyw achos o fandaliaeth, i gysylltu'n syth â'r Heddlu.

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:



Bwyd Lleol

Busnesau cefn gwlad

Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FFW?

Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfngyngor yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935



www.fframia.com

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

FFRAMIA

Parc Padarn, Llanberis

(01286) 870922

www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan

William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.



Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH

Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718

BOSCH Service **OFT** Approved code

Car Service

www.a-v-w.co.uk

01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

AVW **BOSCH Car Service**



Cyfarchion
Nadolig



CAEATHRO A WAUNFAWR

*Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd
dda oddi wrth bawb yn*

GAREJ GWALIA



CAEATHRO

Ffôn: 673096



Gwasanaeth

Torri Lawr 24 awr

M.O.T. * Trwsio Ceir



Ar agor 7 a.m. – 10 p.m. bob dydd. Bwyd,
diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, ayb



**GERAINT OWEN
CARPEDI**

CARPEDI • VINYLs • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS

A RHAI MEWN STOCK



Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd

A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

ANTUR WAUNFAWR AILGYLCHU

Gwaredu Data

ANTUR



WAUNFAWR

AILGYLCHU

Llarpiâ Dogfennau Cyfrinachol

www.anturwaunfawr.org

ffôn: 01286 669330

swyddfa@anturwaunfawr.org



NADOLIG LLAWEN

A BLWYDDYN

NEWYDD DDA



i holl gyfeillion yr Antur ym
mro'r Eco

Antur Waunfawr

01286 650 721

www.anturwaunfawr.org



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

*Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ*

Ffôn: (01286) 650834

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor **7.30 – 6.00**

8.00 – 5.30 (Sadwrn) • 8.30 – 12.30 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com



*Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn*

SNOWDONIA FIRE PROTECTION

YR HEN EFAIL, WAUNFAWR

Ffôn: (01286) 650235

Hefyd: Uned 10 TIR LLWYD, BAE CINMEL (01745) 360445
OFFER DIFFODD TÂN — masnachol ac i'r cartref
OFFER CANFOD MŴG ar gyfer y cartref
GOLEUADAU ARGYFWNG
LARWM TÂN, a llawer mwy
i'w gweld yn ein swyddfa.



Mae pawb yn

SIOP SGLODION Y PENTREF

THE VILLAGE CHIPPY

WAUNFAWR, Ffôn: 650683

***** yn dymuno Nadolig Llawen a ***
Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref**

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn*

WELDPAR

CYMRU

WALES

**CANOLFAN OFFER WELDIO
WAUNFAWR Ffôn: 650720**



YSGOL BRYNREFAIL

Ysgoloriaeth Prifysgol Bangor



Dyfarnwyd Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Y Gymraeg i Siôn Elwyn am y marciau uchaf yn ei ganlyniadau Lefel A. Rhoddwyd £3500 yn wobwr iddo. Derbyniodd Enfys Ysgoloriaeth Teilyngdod Bangor sydd werth £2400 a hefyd enillodd Ysgoloriaeth Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol sydd werth £200.



Dosbarth 10o

Beth oedd yn y bocs? Teganau - injan dân, ceir bach, peli bach; sanau Nadolig; llyfr lliwio; creons; sebon; sbwng; brwsh dannedd; past dannedd; fferins. Bocs ar gyfer bachgen 2-4 oed.

Pam wnes i lenwi bocs? Llenwais i a fy ffrind ddau focs achos roedden ni eisiau helpu a gwneud plant llai ffodus na ni yn hapus. Cawsom ni lawer o hwyl yn llenwi'r bocsys a hefyd cawsom hwyl yn dyfalu beth fyddai'r plentyn yn hoffi cael.

EMMA SMITH



Dosbarth 10i

Beth oedd yn y bocs? Fe wnes i focs i ferch a'i hoedran oddeutu 10-14 oed. Yn fy mocs yr oedd her: cardiau; 50 pensel ysgrifennu; pensiliau lliw; body puff; notepad; gemwaith; pwr; bandiau gwallt; sgarff; dillad nofio; brwsh dannedd; past dannedd; papur plaen; cerdyn Nadolig.

Pam wnes i lenwi bocs? Wnes i wneud bocs oherwydd mac'n bleser gweld wynebau hapus, diolchgar y plant pan maent yn derbyn y bocs. Mae Nadolig yn rhywbeth llawn hapusrwydd ac fe ddylai plant y gwledydd yma gael y siawns hefyd i fwynhau'r Nadolig o dderbyn bocs sy'n cymryd ond deg munud i lenwi a'i lapio ond fydd yn gwneud gwahaniaeth anferthol ym mywyd plentyn.

MOLLY THOMAS

Ymgyrch Plentyn y Nadolig



Dosbarth 8E

Mrs Catrin Wyn Jones, Trefnydd 'Ymgyrch Plentyn y Nadolig' yn Ysgol Brynrefail gyda Niamh Jones, dosbarth 7N, ddaeth gyda'r bocs llawn gyntaf.



Dosbarth 8E

Beth oedd yn y bocs? Dewisais wneud bocs i ferch 5-9 oed. Aeth Mam a fi i nôl stff i'r bocs un dydd Sadwrn. Roedd fy chwaer eisiau dim ond rhoi pethau pinc yn ei bocs ac felly dewisais i roi pethau piws. Felly cafwyd bobls gwallt piws; tedi piws; brwsh dannedd piws; sebon piws; siampw piws; past dannedd; llyfr lliwio; pensiliau lliw.

Pam wnes i lenwi bocs? Fe lenwais y bocs er mwyn dangos i blant yn y gwledydd pell fod rhywun yn gofalu amdanyh nhw a dangos bod ganddyn nhw bobl sy'n eu caru. Rydw i'n hapus fy mod i wedi llenwi bocs i rywun llai ffodus a dwi'n gobeithio cânt bleser mawr yn chwarae gyda chynnwys y bocs.

NIA HAF



Dosbarth 9S

Beth oedd yn y bocs? Wnes i ddewis brwsh dannedd a phast dannedd oherwydd mac'n rhaid i bawb gadw eu dannedd yn lân. Roedd yna Tedi er mwyn gallu cydlo â fo a bod yn ffrind iddo. Yr oedd 'notepad' a phethau ysgrifennu er mwyn cael tynnu lluniau neu gadw dyddiadur; menyg; sebon; sgarff a da da.

Pam wnes i lenwi bocs? Nadolig yma fe fydd pawb yn cael llond ystafell o bresantau ond fe fydd y plant yma yn lwcus i gael un. Felly dwi'n hapus fy mod i am wneud un plentyn yn rhywle yn hapus.

CHLOE WILLIAMS

YSGOL BRYNREFAIL

Ysgol Iach



Mae cynllun 'Ysgol Iach' Gwynedd yn cael ei reoli mewn partneriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, Cyngor Gwynedd, CYNNAL a'r bwrdd Iechyd Lleol.

Mae'r cynllun yn galluogi ysgolion i gyfrannu'n bositif tuag at iechyd a lles eu disgyblion, athrawon a'r gymuned ehangach drwy ddatblygu amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd.

Mae 'Ysgolion Iach' yn cyflwyno agweddau iechyd a lles drwy'r Cwricwlwm Cenedlaethol, Cwricwlwm cudd ac ethos yr Ysgol. Mae Brynrefail yn datblygu ar y

cysylltiadau sydd yn bodoli eisoes rhwng y cartref, y gymuned ac asiantaethau arbenigol.

Er enghraifft, gyda 750 o ddisgyblion a 68 o staff, y mae Ysgol Brynrefail yn defnyddio llwythi o bapur. Un o'r agweddau y mae Mrs Rhian Owen yn ceisio ci ddatblygu yw ail gylchu'r papur wast fel un o ganghennau ein polisi 'Ysgol Iach'. Ar hyn o bryd y mae hi yn ddiolchgar iawn i griw o flwyddyn 9 sy'n cymeryd rhan flaenllaw pob wythnos i sicrhau ein bod, fel Ysgol, yn ymwybodol o'n cyfrifoldeb i chwarae ein rhan i ddiogelu dyfodol y blaned.

CWMNI'R FRÂN WEN



Rhai o ddisgyblion blwyddyn 9 gyda chast y cwmni.

Dros ddau ddiwrnod ym mis Tachwedd fe adeiladwyd pabell Fawr yn neuadd Ysgol Brynrefail.

Wedi'r trefnu gan Mrs Rhian Owen, i gefnogi Addysg Personol a Chymdeithasol o fewn yr Ysgol, bu dau berfformiad o 'Hawl' gan Iola Ynyr gan Cwmni'r Frân Wen, Porthaethwy.

Wedi eu hanelu at ddisgyblion flwyddyn 9 yr oedd y perfformiadau yn anelu at godi ymwybyddiaeth y disgyblion o'r ffordd i ymwybyddiaeth y hawliau gan ganolbwyntio ar ofyn! 'Pwy sy'n gwarchod ein hawliau?' a 'Sut all gwledydd

mwyaf pwerus y byd dorri hawliau dynol sylfaenol heb dderbyn cosb?'

Cafwyd nifer o sefyllfaoedd a delweddau yn cael eu taflu at y gynulleidfa gan eu gorfodi i ymateb yn y fan a'r lle.

Yr oedd y golygfeydd wedi eu scilio ar ddigwyddiadau cyfoes rhyngwladol ond yn ddigon amwys i symblu'r gynulleidfa i roi cig a gwacd am yr hyn a gyflwynwyd iddynt.

Barn y disgyblion oedd bod y perfformiad yn wefreiddiol, cniol, yn cniol, corfforol a delwedol gan ysgogi'r gynulleidfa ar bod y cynnwys yn ddwys.

SBOTOLAU AR DYLAN THOMAS



A rhif rhedeg 6463 ar frest ei grys bu Dylan yn ymgeisydd yn y 'BUPA Great North Run' yn Newcastle eleni a bu ein gohebydd allan o wynt yn dal i fyni â fo.

Wel Dylan yr holl ffordd i Newcastle i gystadlu! Ti'n eitha redwr felly?

Dyma'r trydydd tro i mi redeg yn Newcastle ynghyd â miloedd o redwyr eraill.

A pha mor bell oedd y ras?

3 kilomedr o hyd ac mi ddaru mi orffen mewn 19 munud a 46 eiliad ac rown i'n 91 allan o'r 5,000 wnaeth gystadlu. Ond er fy mod i ond yn 13 oed mae'n rhaid i mi gystadlu yn y ras i rai dan 16 oed.

Wyt ti di arfer gyda rhedeg felly, a'i fwynhau?

Ydw dwi'n mwynhau rhedeg ac

wedi cystadlu erioed mewn cystadlaethau Ysgol ond ar ben hynny dwi di rhedeg yn y Great North Run deirgwaith yn olynol, hefyd ymhlith cystadlaethau eraill dwi wedi cystadlu yn Ras yr Wyddfa.

Oes na draddodiad teulu mewn rhedeg felly?

Oes mac nhad wedi rhedeg y Great North Run dros y tair blynedd diwethaf.


Fydd y tad a'r mab yn cystadlu yn Newcastle yn 2011?

Wel na fyddwn. Da ni di gweld Gateshead a Newcastle deirgwaith yn olynol rwan, felly flwyddyn nesaf da ni am redeg yn y Great South Run yn Portsmouth.

A'r Dyfodol?

Wel, heb os nac oni bai, hoffwn redeg yn Marathon Llundain.

Gweithgareddau Glynllifon



Yn ddiweddar bu Gerallt Morris a chriw o ddisgyblion eraill yn mwynhau diwrnod o weithgareddau ym mharc Glynllifon. Rhai diwrnodau wedi hynny fe ddaeth amlen arbennig i'r Ysgol ac wedi ei

agor cafodd Gerallt y pleser o ddarganfod ei fod wedi ennill cystadleuaeth y diwrnod.

Yn o fuan bydd Gerallt yn mynd i 'Glasfryn Wakeparc' i wario ei docyn gwerth £20.00 ar sesiynau 'Wakeboarding'

STORI FUDDUGOL EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL gan Lois Jones

GOBAITH

Agorais fy llygaid, daeth y sŵn eto. Sŵn dinistrio a sŵn marwolaeth. Ceisiais gau fy llygaid yn dynn, mor dynn ag y gallwn i geisio stopio'r sŵn. Roedd fel byw mewn hunllef. Breuddwyd oedd y hen fywyd hapus cyn i hyn ddigwydd. Doedd dim ffordd o stopio'r sŵn, roedd yn cael ei holli i mewn i fy mhen. Plis na, stopiwch! Ewch o 'ma! Dach chi ddim i fod i wneud hyn! Dechreuodd y dagrau gau llenni fy llygaid. Roeddwn yn gweiddi pob nos i ofyn i Dduw stopio hyn ond doedd o byth yn gwrando. Rhy brysur yn gwrando ar weddïau'r meirw trwy'r byd. Rwy'n siŵr ei fod o yn y nefoedd yn chwerthin ar ein pennau yn chwarae fel hogiau bach yn gwisgo i fyny, yn ei weld fel jôc fawr. Wrth gwrs, dim ond pobl ddibwys, di nod ydan ni i gyd. Beth yw'r ots?

Codais o'r gwely yn araf ac edrych tuag at y ffenestr, ond wrth gwrs doedd ddim byd i'w weld - dim ond y papur du oer. Yn araf cerddais yn ôl at y gwely a gorwedd yn ôl. Roedd y sŵn yn dal i fod yn dirgrynu yn fy mhen.

Aw'r yn ddiweddarach yr oedd y sŵn wedi stopio. Efallai bod Duw yn gwrando am unwaith. Mor ddistaw ag y medrwn cerddais lawr y grisiau ac i mewn i'r ystafell fyw. Roedd rhai o'r lluniau wedi syrthio ar lawr oherwydd yr holl sŵn. Codais un ohonynt a gwenu. Llun priodas Mam a Dad. Roedd Mam, fel yr arfer, yn edrych fel angel yn ei sidan gwyn. A Dad, wrth gwrs, yn ei iwniform yn edrych mor smart. Wrth gofio'n ôl dechreuodd fy meddwl redeg yn bell, doeddwn i ddim yn gallu stopio. Daeth yr atgofion hapus i gyd yn ôl a dechreuais grio eto. Pam roedd hyn yn gorfod digwydd? Roedd digon o ddioddef yn y byd yn barod heb hyn. Edrychais ar y cloc oedd ar ben y lle tân taclus. Roedd hi bron yn hanner nos. Doedd amser ddim yn bodoli yn y tŷ yma mwyach. Roedd hapusrwydd yr haul yn gorfod cael ei gau allan hyd yn oed, yn rhy boenus i edrych arno. Ers i Mam adael... Na fedra i ddim meddwl am bethau fel yna dim mwy. Mac hi wedi mynd a dyna fo. Dim ond tad sydd gen i nawr, wel dim ond tad oedd gen i. Roedd yn rhaid iddo fynd, fo oedd y dyn mawr, y dyn pwysig. Dwi'n dal i gofio ci ciriau olaf.

Rhaid i mi fynd cyw, dros of i, drosot ti, dros bopeth. Rhaid i

ni'i gadw fo'n rhydd.'

Fel triog disgynnodd y dagrau dros fy wyneb eto. Roedd yn rhaid i mi stopio meddwl fel hyn, stopio cofio popeth. Mae pob atgof fel cyllell yn fy nghalon. Rhaid i mi aros yn gryf ... er mwyn Dad. Edrychais ar y lluniau ar lawr. Eu hwynebau yn gwenu arnaf yn greulon. Codais bob un a'u rhoi nhw yn eu lle yn daclus. Yn union fel yr oedd Mam wedi gadael popeth. Na, na, na! Beth oedd y mater arna i? Pam cofio? Rhaid i mi anghofio am y bitsh gelwyddog yna. Yn gadael ei gŵr a'i phlentyn heb ddim gair. Dim un siw na miw ers chwe mis. Roedd dim pwynt wastio amser yn meddwl amdani. Gan fy mod i wedi codi ym mherfedd nos daeth blinder mawr drostaf. Eisteddais yn gysglyd yng nghadair orau Dad. Roeddwn yn dal i arogl ei 'after shave'. Cysgais heb freuddwydio.

Deffrais yn sydyn. Roedd sŵn cnocio ar y drws. Roedd hi bron yn hanner awr wedi tri. Pwy gebyst fyddai allan mor hwyr â hyn ar ôl beth ddigwyddodd gynau. Codais yn araf o'r gadair gynnes a cherdded yn dawel at y drws. Agorais y drws yn araf. Roeddwn i eisiau bod yn sâl.

'Sera, cariad?'

Roedd o fel bod fy llais wedi cael ei sugno allan o fy ngheg.

'Mam?'

Crynaïs yn y gadair oedd nawr yn oer. Sylodd Mam arna i heb ddweud dim. Roedd hi wedi newid. Ei gwallt i fyny'n ddel, ei gwefusau'n goch fel rhosyn rhamantus.

'Dwed rhywbeth, plis cariad,' dywedodd y gwefusau coch.

'Oce Mam. Anwylyd! Lle uffarn da chi wedi bod?'

'Roedd yn rhaid i mi adael, roedd....'

'O ia dyma'r esgus mawr. Chwe mis heb air i esbonio. Roedd Dad a fi yn poeni lle roeddech chi wedi mynd. Sgynnoch chi ddim syniad.'

'Plis cariad gwrandia arna i.....'

'Na dwi ddim eisiau clywed. Na plis ddim eto.'

Daeth y sŵn eto fel grym distop, yn ysgwyd y tŷ i gyd o'r llawr i'r to.

'Air raid' arall tyrd rhaid i ni fynd,' dechreuodd Mam.

'Na,' sgrechiais yn ôl. 'Rhaid i mi edrych ar ôl y tŷ i dad.'

'Paid. Rhaid i ni fynd cyn iddyn nhw ddod.'

Dechreuodd waethygu. Roedd fy mhen i ar dân eto

gyda'r sŵn mawr fel mellit a tharanau. Disgynnais i'r llawr a dechrau sgrechian.

'Na plis ewch o ma, gadwch lonydd!'

'Iesu Grist! Beth sy'n bod arnat ti? Rhaid i ni adael nawr.'

Rhywsut, llwyddais i godi ar fy nhraed gyda help Mam. Roedd fy nhraed yn pwyso tunelli, yn rhy drwm i'w cario. Ond fe'm gwithwyd gan fy Mam drwy'r drws.

'Lle goblyn mae'r "shelter"?', dywedodd Mam mewn penbleth yn edrych o'i chwmpas fel rhywun ar goll.

Roedd y stryd yn ddieithr i'r ddwy ohonon ni. Roedd popeth yn dywyll fel bol buwch. Dim golau, dim hyd yn oed aer yn yr awyr.

'Tyrd, awn ni i waelod y stryd i chwilio,' meddai Mam.

Bron fy mod yn cropian ar y llawr, ond cyrhaeddom waelod y stryd. Roedd y sŵn yn mynd yn uwch ac yn uwch ag yn uwch. Roedd fy mhen bron â ffrwydro.

Dechreuais sgrechian eto gyda phoen y sŵn. Yn sydyn daeth y golau bach i'r golwg

'Bloody Hell! You'd better come in here quick before those Jerry boys see ya'.

Rhedodd Mam i mewn i'r drws yn fy llusgo i mewn fel rhyw gi anufudd. Caeodd y drws yn glep y tu ôl i mi. Aeth popeth yn ddu a rhuthrodd sŵn dychrynlyd y bomiau i'r cefndir.

Pan agorais fy llygaid roedd llygaid tlws Mam yn syllu yn ôl arnaf. Roedd ei gwefusau rhosyn yn gwenu.

'Ti'n teimlo'n well cariad?'

'Ym ydw....'

'Iawn plis gadael i fi esbonio beth ddigwyddodd, pam wnes i adael.'

'Oce dwi'n gwrando.'

Gwrandewais yn astud. Roedd popeth yn sioc i fy nghlustiau.

'Roedd dy Dad yn fy nharo, doeddwn i ddim yn gallu byw gyda fo dim hirach. Roedd o'n fy lladd i dy adael di ar ôl ond roeddwn yn gwybod dy fod yn caru dy Dad yn arw.'

'Pam dod yn ôl heno yng nghanol popeth?' gofynnais, 'oeddech chi wedi clywed fod Dad wedi cael... Yn... Dunkirk?'

'Do,' dywedodd yn gafael yn fy llaw yn dyngr, 'dwi mor sori cariad.'

Roedd y sŵn drosodd nawr, roedd y gweiddi a'r sgrechian a'r dioddef wedi stopio yn fy mhen. Roedd popeth yn ddistaw am y tro. Am y tro cyntaf mewn oes roedd yr haul fel hufen ar fy nghroen. Roedd y storm yn fy mhen drosodd a cherddais allan i'r cynhesrwydd.

Yr holl amser roeddwn i yn

meddwl mai Adolf Hitler oedd y drwg yn hyn i gyd. Ond na. Roedd rhywun arall ar fai hefyd. Fuaswn i byth wedi dweud fod dad wedi haeddu cael ei ladd yn Ffrainc ond wna i byth faddau iddo nawr ar ôl iddo frifo mam fel yna. Roeddwn i wedi coelio fod Dad yn rhyw fath o arwr yn y fyddin yn lladd y Natsiaid ond yn y diwedd bwli oedd o yn pigo ar Mam. Yn ei thrin hi fel baw.

Doeddwn i ddim yn gall pan wnaeth Mam ffeindio fi yn y tŷ. Roeddwn i wedi colli fy mywyd yn y tŷ yna, yn gobeithio y buasai o'n dod â Dad yn ôl. Ond doedd dim gobaith yn hynny. Na roedd hynny yn wirion. Roedd yn rhaid i mi ddysgu sut i gael gobaith eto, i gael gobaith mewn gobaith, ond nid gobaith mewn rhyfel. Roeddwn yn credu o'r blaen bod dynoliaeth yn ddibwys. Ond roeddwn yn anghywir. Yn y diwedd fe ddysgais mai dim ond mewn pobl y medrwn chi gael gobaith.

'Deilen ar yr Afon' gan Sarah Kelly

Ddiwedd Medi cyhoeddwyd *Deilen ar yr Afon*, sef hunangofiant Sarah Kelly, sy'n byw ym Mhenchwantan, Bangor. Yr ydym, yn Ysgol Brynrefail, yn hynod falch ein bod wedi derbyn copi o'r llyfr gan yr awdures ei hun a'i bod wedi ei gyflwyno a'i arwyddo yn bersonol.

A beth felly ydi'r cysylltiad ag Ysgol Brynrefail? Wel, fe aned a magwyd Sarah Kelly yn Llanddeiniolen ac y mae hi yn gyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail ac o fewn y llyfr y mae dwy bennod wedi eu neilltuo yn benodol i sôn am ei chyfnod yn yr ysgol. Efallai y bydd y dyfyniad isod yn codi blys arnoch i ddarlenn mwy:

'Hawdd wrth fynd yn hyn yw i berson wneud "icon" o'i hen Ysgol. Er i mi ymgeisio atal droeon rhag rhoddi statws eiconig i Ysgol Brynrefail, does dim os nad wyf yn euog o'r peth. Canfwm hyn ambell waith wrth siarad hefo hen gyd-ddisgyblion a deall nad oeddynt i gyd hefo atgofion da o'r Ysgol a bod rhai hyd yn oed wedi dyheu am ymadael. Ie, wel - reit siŵr mae diffyg ynddynt hwy oedd yn hyrrach na bai ar yr Ysgol!'

Carwn ddiolch o galon i Sarah Kelly am ei rhodd gwerthfawr i'r Ysgol, nid yn unig y copi o'r llyfr a'i geiriau caredig ar ei glawr, ond hefyd am y cofnod hanesyddol a gwreiddiol sydd yn y llyfr.



Ar ddydd Mercher, 10fed o Dachwedd 2010, fe ddaeth na fws crand i Frynrefail i gludo rhai disgyblion oedd yn cynrychioli'r ysgol, ynghyd â thair aelod o'r staff, sef Mrs Sharon Griffiths, Mrs Bethan Williams a Mrs Caryl Owen, i Lynllifon i ymuno mewn nifer o wahanol weithgareddau. Yno buont yn ymuno gyda disgyblion eraill oedd yn cynrychioli 6 o ysgolion uwchradd y sir.

Buont yn blasu gwahanol weithgareddau sydd ar gael yng Nglynllifon fel Cyfeiriannu, Saethyddu, Bocsw'n (cyfansoddi

cerddoriaeth ar gyfrifiaduron), Crefft Metel a Chrefftau Llechi. Roedd y bore yn llawn gweithgareddau heb amser i gymryd gwynt.

Wedi'r holl waith caled yr oedd pawb yn falch o fynediad i babell enfawr lle cafwyd cinio swmpus o dan nawdd Ffermwyr Ifanc, Cangen Gwynedd.

Cafwyd adborth gan staff Glynllifon bod ein myfyrwyr, fel arfer, wedi ymddwyn yn rhagorol ac wedi dod â chlod mawr i enw Ysgol Brynrefail.

Ni chafwyd adroddiad ar ymddygiad y tair aelod o'r staff!

CANLYNIADAU LLWYFAN YR EISTEDDFOD

Unawd Piano Blwyddyn 7-9 1af: Math Roberts; 2il: Sian Williams; 3ydd: Glesni Parry.

Unawd Bechgyn Blwyddyn 7-9 1af: Gwion Jones; Ail: Gwern Brookes; 3ydd: Rhodri Jones

Unawd Chwyth Blwyddyn 7-9 1af: Llinos Jones; 2il: Gwenllian Williams; 3ydd: William Lamb / Caitlin Lamb
Cân Ysgafn 1af: Eryri; 2il: Elidir; 3ydd: Eilian.

Unawd Genethod Blwyddyn 7-9 1af: Elan Jones; 2il: Mared Rhys; 3ydd: Lowri Wyn

Parti Sbaeneg 1af: Eryri; 2il: Gwyrfaï ac Elidir; 3ydd: Eryri
Parti Bechgyn Blwyddyn 7-9 1af: Eryri; 2il: Elidir; 3ydd: Gwyrfaï ac Eilian

Llefaru Cymraeg 1af: Mari Tachwedd; 2il: Gwion Jones; 3ydd: Nia George

Dawnsio Disgo 1af: Eilian; 2il: Elidir; 3ydd: Eryri

Llefaru Saesneg 1af: Tomos Parry; 2il: Gwenllian Jones; 3ydd: Ciaran Mitchell

Sgetis 1af: Elidir; 2il: Eryri a Gwyrfaï; 3ydd: Eilian

Deuawd Blwyddyn 7-9 1af: Hanna a Mari; 2il: Elan a Lowri; 3ydd: Lia a Llinos

Unawd Llynol 1af: Math Roberts; 2il: Danny Cain; 3ydd: Mared Rhys

Unawd Pres 1af: Alaw Prys; 2il: Richard Efans; 3ydd: Adam Bragan

Unawd Piano Blwyddyn 10-13 1af: Anest Bryn Jones; 2il: Huw Owen a Gethin Griffiths; 3ydd: Manon Elwyn a Sion Fon

Llefaru Saesneg 1af: Dyfan Coles; 2il: Daniel Taylor; 3ydd: Owain Glyn Jones

Unawd Chwyth Blwyddyn 10-13 1af: Molly Steele; 2il: Ffion Roberts; 3ydd: Gwawr Jones

Parti Merched 1af: Eilian; 2il: Eryri ac Elidir; 3ydd: Gwyrfaï

Ensemble 1af: Elidir; 2il: Eilian ac Eryri; 3ydd: Gwyrfaï

Dramodig 1af: Elidir; 2il: Eilian; 3ydd: Gwyrfaï ac Eryri

Unawd Llynol Blwyddyn 10-13 1af: Gwilym Rhys; 2il: Bethan Roberts; 3ydd: Robert Holding

Llefaru Cymraeg Blwyddyn 10-13 1af: Lois Jones; 2il: Gwenno

Gibbard; 3ydd: Llio Emyr
Unawd Merched / Bechgyn Blwyddyn 10-13 1af: Daniel Taylor; 2il: Catrin Jones; 3ydd: Rhodri Brookes

Unawd Pres Blwyddyn 10-13 1af: Daniel Taylor; 2il: Manon Elwyn; 3ydd: Huw Owen a Rhodri Brookes

Parti Llefaru 1af: Eryri; 2il: Gwyrfaï; 3ydd: Elidir

Deuawd Blwyddyn 10-13 1af: Catrin Jones a Daniel Taylor;

2il: Anest a Lois; 3ydd: Huw Owen ac Ild Jones

Tlws Rhyddiaeth Saesneg 1af: Anna Haycock; 2il: Elin Morgan; 3ydd: Manon Elwyn
Côr 1af: Eilian; 2il: Elidir; 3ydd: Eryri a Gwyrfaï

Tlws yr Ifanc 1af: Mared Ynyr; 2il: Manon Thomas; 3ydd: Gwenllian Jones

Y Gadair 1af: Lois Jones; 2il: Daniel Taylor; 3ydd: Greta Jams ac Anest Bryn

Ymweliad Dafydd Wigley

Ar ddydd Iau, Hydref 7fed 2010 fe ddaeth ymwelydd pwysig iawn i Ysgol Brynrefail - Mr Dafydd Wigley. Daeth i siarad gyda blwyddyn 12 am wleidyddiaeth fel rhan o'u cwrs 'Cymru, Ewrop a'r Byd'. Siaradodd yn fanwl a diddorol iawn am ei brofiadau yn y maes ac aeth ati i egluro'r systemau gwleidyddol yn Ewrop, Prydain a Chymru. Pwysleisiodd mor bwysig oedd i bobl ifainc ymddiddori ym myd

gwleidyddiaeth:

'Does dim pwynt eistedd yn ôl a chwyno am y byd, rhaid bod yn rhan ohono a defnyddio'r drefn i leisio barn a newid pethau,' meddai.

Cafwyd geiriau o groeso gan Cain Thomas a diolch gan Nathan Price. Gofynnwyd sawl cwestiwn hwyliog a threiddgar gan Lowri Puw, Chris Roberts, David Williams a Gethin Griffiths a bu'r holl brofiad yn werthfawr iawn i'r disgyblion.

Rhestr Werdd Cynnal Cymru

Mae'r bardd, awdur ac adroddwr storïau, Eric Maddern o Cae Mabon, Fachwen, wedi ei gynnwys ymhlith y rhai sydd wedi eu cynnwys yn Rhestr Werdd Cymru am eleni. Mae'r rhestr yn cael ei dewis gan banel o arbenigwyr ym myd cynladwyaeth ar ran Cynnal Cymru, ac yn derbyn cefnogaeth gan Lywodraeth y Cynulliad.

Bu Eric Maddern yn cynnal gweithdai adrodd storïau yng Nghae Mabon ers bron i chwarter canrif, ac y mae ei waith, boed yn straeon neu'n farddoniaeth, yn rhoi pwyslais ar sut i 'droedio'n ysgafn' ar wyneb ein daear.

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Caoglu a Danfon
Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 - 07565791010
ebost: jullaposhpaws@btinternet.com

SMALA
www.smala.net

Gwefan
Poster
Taflenni
Logo
Cardiau busnes
Llyfrau archebion
Penllythyr
Sticeri . Labeli
Argraffu o bob math

01286 660 364
07887 654 251

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

R. L. DAVIES
Coed Belyn Mawr, Bethel
Offer i'w logi ar gyfer:

- tyllu footings
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Hefyd: Lle i wagio sbwriel inert a Hardcore ar werth

Ffoniwch am fanylion
(01248) 671300
neu (07775) 638620

Stôf Draddodiadol neu FODERN i gynhesu eich tŷ

fflam .biz
JOHN HUGHES a'i FAB
IARD LO Carmel Gwynedd
01286 882160

CHWILOTA

MANION BETHEUACH BWYTADWY!



Nid plant yn unig sy'n mwynhau cael anrhegion yn ystod y Nadolig. Mae rhai unigolion, boed blant neu oedolion, yn bodloni ar un anrheg gwerth ei gael. Mae eraill yn mwynhau amrywiaeth o anrhegion, ac yn cael cymaint o bleser o agor y papur lapio ac o dderbyn yr anrheg ei hun. Dyna fydd y golofn y mis hwn: amrywiaeth o fân anrhegion yn ymwneud â gwahanol agweddau o hanes y fro – ac ambell ymholiad yn eu sgil.

Bardd o Ddinorwig

Pwy oedd T. Jones Parry, bardd a chynganeddwr o Ddinorwig. Roedd yn fyw yn ystod dauddegau a thridegau'r ganrif ddiwethaf. Yn nghylchgrawn Y Gymraes, fis Chwefror 1930 mae englynion coffa ganddo i Mrs Ellen Roberts, Penybryn, Fachwen. Bu hi farw ar y pumed o Fedi 1930 yn 57 oed. Dyma'r englynion:

Rhy ddwys oedd i roddi sen –
wylaidd un
Troediodd oes ddi-absen;
Y buraf chwaer, bu'r Fachwen
Dalach o fywyd Ellen.

Fam ddilesig, fedrai esgyn –
yn y glyn
I'r goleuni purwyn;
Mam gyda'i salm a'i hemyn
Barai wawr ym Mheny Bryn.

Y dynaer hon adwaenai'r Iôr –
hoffai lwydd
Ei phlant wrth yr allor;
Ac er islaw'r ddistaw ddôr
Angau ni thaw ei chynghor.

Un abl iawn yn ei Beibl oedd –
a dawnus
Sôn amdano'r ydoedd;
Gallai dynnu o'i gelloedd
Aur a gwerth, a'i fyw ar g'oedd.

Llawn hyder llon drwy y lli –
claf aeth
A'r law fawr o tani;
Y nawdd cynefin iddi
Uwch niwl hon i'w chynnal hi.

Ac o gofio'r tywydd garw a gawsom dros yr wythnosau diwethaf, gyda gwyntoedd iasol a milcynig yn rhewi'r ddacar, addas iawn yw cofnodi englyn arall ganddo i Wynt y Dwyrain.

Pen yr awyr pan rui – mawr
yw'th ofn
Môr a thir dramwyi;
Yn dy nwyd drwy'n planed ni
Tydi deyrn wyt dad oerni.

Mae'n rhaid i mi gyfaddef mai'r llinell olaf yn unig sy'n tawo i mi.

Oes oes gwybodacth am T.

Jones Parry gan unrhyw un, yna cysylltwch cyn y rhifyn nesaf – mae gennych tan ddiwedd Ionawr.

Banjar o'r De

Daeth cais i law yn holi am fwy o wybodaeth ynglŷn ag un o offerynwyr ac arweinwyr bandiau enwocaf yr ardal yn y cyfnod diweddar, er mai un o'r de oedd yn wreiddiol. Roedd W.T. (Billy) Davies yn enedigol o'r Maerdy, ac fel cornetydd i fand Glofa Maerdy yn cychwynnodd ei yrfa yn naw oed. Bu'n aelod hefyd o fandiau Tylorstown a Ferndale cyn symud i'r gogledd yn 1927 yn ystod y Dirwasgiad.

Yn ôl Emyr Jones yn ei lyfr *Canrif y Chwarelwr*, roedd ei ddyfodiad 'yn donic gwirioneddol i fandiau Arfon oherwydd daeth â bywyd newydd i amryw ohonynt a fuasai'n segur ers blynyddoedd.'

Bu'n hyfforddi bandiau Llangefni a Biwmares, ac yn hynod llwyddiannus yn arwain bandiau Penmaenmawr a Deiniolen. Ond yn 1950 gadawodd Deiniolen a dod yn hyfforddwr ac arweinydd Band Llanrug.

Bu'n seinio'r Corn Gwlad yn seremoniau'r Eisteddfod genedlaethol am ddegawdau, a hynny dan yr enw Gwilym Maerdy. Roedd yn byw mewn bwthyn ar Allt y Foel. Unrhyw wybodaeth neu atgofion amdano gan rai o'r cyn-aelodau yn Neiniolen neu Lanrug os gwelwch yn dda.

Griffith Owen, Tŷ Newydd, Penisarwaen

Gan Miss Mair Foulkes o Benisarwaen y daeth y penillion canlynol, sef coffad am ei thaid

a laddwyd mewn damwain yn Chwarel Dinorwig. Roedd iddo ef a'i wraig ddeuddeg o blant, a'r cyfan ohonynt wedi gadael cartref. Edrychai'r ddau ymlaen am fymryn o seibiant ar ôl magu tyaid mor lluosog, ond chwalwyd eu breuddwydion gyda'r ddamwain yn Ionawr 1924.

Ysgrifennwyd y gân hiraeth fel y gelwir hi, gan T. Armstrong Roberts o Benisarwaen. Oes rhywun â gwybodaeth am y bardd hwn?

Bûm wrth dy feddrod yn y llan
A gwrid yr haf ar ddôl a bryn
A sisial medd yr awel fwyn
Yn suo dros y fangre syn.

Cyweiriais yno nhelyn friw
Er ceisio câr wrth goffa di
Ond yn lle miwsig llefodd ffrwd
Fy nagrau dros ei thanau hi.

Tra yr edmygw'n geinder fflwch
Yr ywen werdd a'r blodau mân
Doi atgof am dy fywyd pur
I wynnu yr olygfa lân.

Meddyliwn am dy aberth mawr
A'th ddiodeff hir yn nhir y groes
Ac fel y troiaist ddirmyg Crist
Yn addurn glodfawr oes.

O gyfoeth o ddynoliaeth fawr
O fywyd gonest fel y dur
Nid geiriau gwag ond actau gwyn
Oedd cynnyrch dy gymeriad pur.

Mor loyw wedd dy gryman llym
Ac felly medet ti mor llwyr
A'th arfod hir fel ymchwydd cain
Y don o'r wawrddydd hyd yr hwyr.

Gwae hi dy golli gyfaill cu
Yng nghaddug du y ddamwain fawr
Hon oedd ein nos dywyllaf ni
Ond roedd i ti yn doriad gwawr.

Er claddu dy weddillion syn
A'th galon dyner dan y gro
Nid aiff dy hunan aberth mawr
Na'th fuchedd dduwiol byth o'm co.

Mae'th rinwedd pur fel llwyni tlos
Yn perarogli hyd dy ffyrdd
A'th enw da a'th barch yn dirf
Ac iraidd megis llawryf gwyrdd.

Diogel yw dy deulu mwyn
Dan den dlos yr ysbryd pur
Ond aros, aros mae y graith
A'r bwch a wnaethpwyd yn y mur.

Dychmygw'n glywed sŵn dy droed
Fel cynt yn dychwel fin yr hwyr
Ond wedi breuddwyd daw a siom
Ac wedi siom, dawelwch llwyr.

Cwsg dan y gwerth anwylaf dad
Yn heddwch pur yr erw fud
Cwsg wedi oes o lafur glân
Dan amdo bedd yn wyn dy fyd.

Er na ellir disgrifio'r gân fel barddoniaeth o safon, eto'i gyd, mae'n amlwg wedi ei hysgrifennu gan un oedd yn adnabod y teulu ac yn ffrind agos i'r ymadawedig.

Christine Keeler yn aros yn y fro

Mae'n siŵr fod cenhedlaeth o ddarlennwyr nad yw'r enw yn golygu fawr ddim iddynt, ond i'r rhai oedd yn ifanc yn ystod chwedegau'r ganrif ddiwethaf, roedd enw Christine Keeler a Mandy Rice Davies mor enwog â'r Beatles a'r Rolling Stones. Daeth i amlygrwydd yn dilyn sgandal fawr John Profumo a'r honiadau o ysbio. Roedd Profumo yn weinidog yn llywodraeth Doriaidd MacMillan (*'you've never had it so good'*). Yn rhan o'r sgandal honno roedd Christine Keeler a Mandy Rice Davies – dwy yr honnwyd iddynt gael eu 'cyflogi' i ddifyrru pwysigion mewn partion gwyllt. Pwy sy'n cofio'r llun enwog hwnnw o Christine Keeler yn eistedd yn noethlymun tu ôl i gadair?

Yn ddiweddar, cefais si fod Christine Keeler wedi dianc i'r fro hon yn dilyn y sgandal, ac iddi aros am gyfnod mewn bwthyn yn Ngallt y Foel. Dywedir fod hofrennydd wedi glanio ar lain o dir gyferbyn â Gallt y Foel, a'i bod hithau wedi neidio ohono a chuddio yn y bwthyn am rai wythnosau er mwyn cael lloches rhag helgwn y wasg.

Mae gen i ofn fod helgwn *Eco'r Wyddfa* bron i hanner can mlynedd yn hwyr yn cael gafael yn yr hanes – os gwir y stori – ond byddai'n ddiddorol cael gwybod oes unrhyw un o gyffiniau Deiniolen, Gallt y Foel neu Ddinorwig yn medru cadarnhau'r honiad. Gorau oll os oes llun gan rywun, (wedi ei dynnu â chamera Brownie neu Kodak mae'n debyg!)

Trydan i Fethel

A ninnau'n dibynnu cymaint ar beiriannau'n cael eu gyrru â thrydan, mae'n anodd meddwl am fywyd hebddo rywsut. Anghyfleustra o'r mwyaf yw toriad yn y trydan – oherwydd storm neu oherwydd fod angen adnewyddu rhywfaint ar y sustem. Ond mae llai na chanrif ers i'r mwyafrif o bentrefi'r fro gael trydan i'w tai.

Ar nos Sadwrn, 1af o Fawrth 1930 y cafodd pentref Bethel

**Blodau
Racca**

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts

Ffôn : 01286 870462

Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

drydan am y tro cyntaf. Buasai rhywun yn meddwl fod digwyddiad o'r fath yn achlysur o bwys, ond llinell swta'n unig a gaiff yn y papur lleol, y Caernarfon and Denbigh Herald: 'electricity was switched on for the first time in the village on Saturday evening'. Sgwn i pwy gafodd yr anrhydedd o droi'r swits ymlaen? Ac ymhle ym mhentref Bethel y digwyddodd hynny?

A beth am bentrefi eraill y fro? Oes rhywun â gwybodaeth ynglŷn â pha ardal o fewn bro'r 'Eco' oedd yr olaf i gael cyflenwad o drydan. Gallaf ddychmygu mai rhai o ffermydd mwyaf diarffordd y fro oedd y rheini.

Yr un modd, diddorol fyddai cael gwybod pryd y dechreuwyd cyflenwi gwahanol bentrefi'r fro â nwy. Ac i fod yn llawer mwy diweddar, pa ardaloedd oedd y rhai cyntaf i dderbyn 'broadband', a pha rai sy'n parhau'n disgwyl?

Damwain ar yr Wyddfa

Ar y deuddegfed o Fehefin 1891 darganfuwyd corff Griffith John Pritchard o Lanberis yng nghyffiniau Llyn Glas ar lethrau'r Wyddfa. Roedd wedi bod ar goll ers canol fis Mawrth. Adroddwyd ei fod, ar yr ugeinfed o Fawrth, wedi cerdded i'r copa gyda bwyd i'r rhai oedd yn aros yno. Daeth yn storm arw a dechreuodd luwchuo eira tra'r oedd ar y copa. Ceisiwyd ei berswadio i aros yno nes byddai'r tywydd yn gwella, ond mynnodd fentro i lawr yn ôl am Lanberis am ei bod yn ddiwrnod tâl, a hefyd am ei fod angen cyfarfod rhywun oedd am dalu dyled yn ôl iddo. Roedd y cymhellion ariannol yn drech na'r galw i sicrhau ei ddiogelwch ei hun!

Roedd dau arall o Lanberis wedi cyrraedd yn fuan ar ei ôl, sef Thomas Roberts a John Owen. Penderfynodd y ddau aros nes i'r storm chwythu ei phlwc, ac ymhen awr gallodd y ddau gerdded yn ôl i Lanberis – ond doedd dim golwg o Griffith John Pritchard.

Bu llawer allan ar y mynydd

yn chwilio amdano, ond roedd yn fis Mehefin ar Thomas John Roberts, Fair View, Lanberis yn darganfod ei gorff yng Nghwm Trewaenydd ar ochr Betws Garmon o'r Wyddfa.

Yn anffodus, ganrif a mwy wedi'r digwyddiad mae cerddwyr a dringwyr yn parhau i anwybyddu rhybuddion ynglŷn â'r tywydd ac yn mentro i'r mynyddoedd.

Beganifs

Yn rhifyn y gaeaf o *Gwreiddiau Gwynedd*, cylchgrawn Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd, mae gan Dilwyn Grey-Williams erthygl ddiddorol ynglŷn â tharddiad y llysenw 'Beganifs' am drigolion y Waunfawr. Chwi gofiwch i Robert Williams o'r Waunfawr ymchwilio i hanes Began Ifan rai blynyddoedd yn ôl ac i'r hanes gael ei gyhoeddi yn y golofn hon. Mae ffrwyth ymchwil Dilwyn yn rhoi esboniad gwahanol. Bydd yn rhaid aros tan y flwyddyn newydd i gymharu'r ddau ganlyniad a phenderfynu pa un sy'n gywir.

A dyna'r cyfan am y mis, a'r flwyddyn hon. Mwynhewch eich gwyliau, a diolch i bawb a gysylltodd gyda gwybodaeth, lluniau neu ymholiadau dros y flwyddyn a aeth heibio. Cofiwch anfon at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd. (01286 673515)

AR WERTH

PIANO

Mewn cyflwr da iawn

£500

01286 870 735

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

CYFARCHION YR WYL. Dymuna Dilys Baylis, Lanberis, 'Dangnefedd dros Wyl y Nadolig a Blwyddyn Newydd llawn bendithion i bawb'.

CYFARCHION NADOLIG. Dymuna Goronwy Lewis, 13 Stryd Ceunant, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'i ffrindiau a

pherthnasau, gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

DYMUNIADAU NADOLIG. Dymuna Mrs Anne Wilson Evans, Manod, Ffordd Capel Coch, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd, a dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi oll.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna. Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

GWASANAETHAU'R CAPEL. Bydd yr Ysgol Sul a'r oedfaon yn cael eu cynnal ym mis Ionawr 2011 fel a ganlyn:

2: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson

16: 11.00 Ysgol Sul

23: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Ronald Williams (A)

30: 11.00 Ysgol Sul
Dymuna gweinidog capel Caeathro, y parchedig Marcus Wyn Robinson a swyddogion y Capel Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y gymuned. Edrychwn ymlaen i weld yr aelodau a chyfeillion yn yr oedfaon a'r plant yn yr Ysgol Sul. Nid oes tâl mynediad wrth groesi'r trothwy! Beth am wneud addewid blwyddyn newydd eich bod am fynd i'r Capel yn fwy rheolaidd?

DIGWYDDIADAU NADOLIG. Mae'r canlynol wedi eu trefnu ar gyfer yr wythnos cyn y Nadolig yma yng Nghaeathro:

Dydd Llun, 20 Rhagfyr:

6.00: Plant y Plant gyda Siôn Corn yng Nghanolfan y Capel.

8.00: Tynfa Misol. Tynfa Nadolig a Phwyllgor Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro yn Nhafarn Bryn Gwna.

Dydd Mawrth, 21 Rhagfyr

7.00 Canu Carolau a Chawl cartref gyda Seindorf Iau Llanrug. Cynhelir o amgylch y coed Nadolig ond pe bai'r tywydd yn anffafriol byddwn yn ymgynnull yng nghanolfan y Capel. Peidiwch â cholli'r cyfle i ganu eich hoff garolau a chymdeithasu wedyn.

PEN-BLWYDD O BWYS MAWR. Llongyfarchiadau i John Griffith, Rhannah, Stad Glandŵr, ar ôl iddo ddathlu ei ben-blwydd yn 95 mlwydd oed ganol mis Rhagfyr. Faint o stadau tai yng Nghymru, tybed, gyda dim ond saith o dai sy'n medru cyfrif dau fonheddw dros eu 95 mlwydd oed fel trigolion?

DYMUNIADAU TYMHOROL. Dymuna 'Tim yr Eco' yng Nghaeathro a Rhosbach – Bethan Iwan, Aled Thomas a Clive James – fendithion y Nadolig a dymuniadau gorau yn y Flwyddyn Newydd i brynwyr a darllenwyr Eco'r Wyddfa yn yr ardal.

Yn y flwyddyn newydd gofynnwn am eich newyddion yn unol â'r amserlen ar dudalen 2 yr Eco, neu o dan amgylchiadau arbennig, nid hwyrach na 7.00 yr hwyr ar y trydydd nos Lun ym mhob mis.

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Aneuryn a'r staff

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726



CLWB BRO BETHEL. Daeth 31 o aelodau ynghyd i fwynhau cinio Nadolig blasus yn Y Bedol ddechrau'r mis. Wrth groesawu pawb diolchodd y Parchedig Marcus Wyn Robinson i Ann Ellis Williams ac Ivy Wright am yr holl drefniadau o flaen llaw, Staff Y Bedol am y wledd ac i Cledwyn, Swyddfa'r Post, am ofalu am anrheg i bawb. Diolchodd Ann Ellis Williams i bawb am gyfraniadau i'r raffl, ac aeth nifer o bobl oddi yno gyda gwobr.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Cafwyd noson gartrefol braf yn ddiweddar wrth ddathlu gŵyl y geni dan nawdd y Gymdeithas. Cafwyd gair o groeso gan y Llywydd Dr. J. Elwyn Hughes a bu i'r aelodau gymeryd rhan yn llefaru, darllen o'r ysgrythur a chanu mewn parti. Thema y cyflwyniad, wedi ei baratoi gan Manon Griffiths a Rita Williams, oedd 'Mair - mam yr Iesu'. Diolchodd y Llywydd i'r ddwy am y cyflwyniad ac i Eirlys Sharpe am ofalu am y baned. Ar Ionawr 18fed fydd y cyfarfod nesaf a hynny yng nghwmni y Parchedig Ganon Tegid Roberts a thestun ei sgwrs fydd 'Blwyddyn yn y Wladfa'.

CYFARCHION YR WYL. Dymuna Mrs Mair Jones, Cilan, Tanycae, Bethel, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion gan na fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni. Diolch yn fawr iawn am bob cymorth a chymwynas a dderbyniodd yn ystod 2010.

MERCHED Y WAWR. Mwynhaodd 33 o'r aelodau ginio Nadolig ardderchog yng Ngwesty y Padarn Lake, Llanberis, nos Fercher, 8 Rhagfyr. Cawsom gwis hwyl wedi ei baratoi gan Edwina i ddilyn ac yr oedd bwrthyn o hwyl, dadlau a chwethin wrth i bawb geisio dysalu pwy a beth oedd y lluniau. Y criw buddugol oedd Eryl, Deilwen, Sharon a Lynwen. Yr oedd raffl wedi ei roddi gan aelodau o'r pwyllgor

a'r enillwyr lwcus y tro hwn oedd Alys Jones, Margaret Williams, Lynwen Morris, Anwen Pritchard, Mary Evans ac Ellen Ellis.

Gorchwyl bleserus oedd gan ein llywydd, Rhian Hughes, wrth iddi longyfarch a dymuno yn dda i Anest, merch Eirlys Williams, ar ei phriodas gyda Marc yn ddiweddar, a hefyd wrth gael llongyfarch Ellen ar enedigaeth wyres fach, Beca Fflur, merch fach i Meleri ac Arwel, Llys Elen, Tre Gof.

Braf oedd cael llongyfarch Gethin Wyn Griffiths, ŵyr Rita ar fod yn llwyddiannus gyda'i gyfansoddiad o'r garol 'Seren Wen', sydd wedi cyrraedd y deg uchaf mewn cystadleuaeth ar raglen *Wedi 3* ar S4C. Mae plant ysgol Porthaethwy wedi canu'r garol ar y rhaglen a dymunwn bob lwc iddynt i gyd.

Yr oedd pawb yn hynod falch o weld Glenys gyda ni ar ôl cael triniaeth laser ar ei llygaid ac Ellen ar ôl ei hanffawd hithau. Anfonwyd cofion at bawb sydd ddim yn dda ymysg teuluoedd ein aelodau a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i John, gŵr Lisabeth, Pen Parc, sydd wedi cael cyfnod yn yr ysbyty.

Diolchwyd i Margaret ac Edwina am drefnu'r noson ac i Edwina am y cwis ardderchog ac am y cardiau bwrdd bendigedig a baratodd i bob aelod.

Soniwyd am gwrs Crefft y Gogledd sydd i'w gynnal ym Metws y Coed ar ddydd Sadwrn, 29 Ionawr 2011 ac am y gystadleuaeth Bowllo Deg nos Wener, 14 Ionawr.

Mynegodd amryw eu parodrwyd i wneud gwaith croes-bwyth ar gyfer sioe amaethyddol Llanclwdd a bydd y defnyddiau yn dod i chwi yn fuan. Gofynnwyd hefyd am wirfoddolwyr i helpu ym mhabell y mudiad ar facs y sioe mis Gorffennaf 2011. Atgoffwyd pawb am yr ymgyrch i gasglu hen ffonau symudol, stampiau a chetris inc fel y gall Achub y Plant eu hailgylchu i godi arian

i helpu plant ledled y byd. Os gwelwch yn dda wnewch chi ddod ag unrhyw rai sydd gennych i'r cyfarfod mis Ionawr, fel y gellir eu trosglwyddo i swyddogion y rhanbarth.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar 12 Ionawr pan groesawn y Parch Marcus Wyn Robinson atom i sgwrsio am ei deithiau gyda'r Llynges.

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partion, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

CYFLENWYR PORTHIAN IDRIS MORRIS

BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO

**Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
01248 670439**



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan,
CLED A SUSAN A'R TEULU

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant Tynnu Pres (Cashback)

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb



ORIAU AGOR

6 a.m.-7.30 p.m.
(Llun-Sadwrn)
6 a.m.-3 p.m. (Sul)
10 a.m.-12pm
(Diwrnod Nadolig)

CEIR CYMRU BETHEL (01248) 670451

Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lleiaf a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafaelio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar olw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407



YSGOL GYNRADD

Cyngor Ysgol. Mae aelodau newydd y Cyngor Ysgol wedi eu hethol am y flwyddyn 2010-11, sef Owain ac Annia o flwyddyn 6, Catrin ac Amie o flwyddyn 5, Catrin a Twm o flwyddyn 4, Elin a Brett o flwyddyn 3 ac Enlli a Carwyn o flwyddyn 2.

Byddant yn cyfarfod bob hanner tymor i drafod materion sy'n codi ac i rannu syniadau ar sut i godi arian a gwella'r ysgol.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

Ysgol Werdd. Mae Gweithgor Gwyrdd wedi ei sefydlu yn yr ysgol er mwyn mynd i'r afael ag egwyddorion Siarter Ysgolion Gwyrdd Gwynedd a Môn. Yr aelodau yw Catrin, Magi, Lois a Sam o flwyddyn 6.

Bydd y Gweithgor yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion gwyrdd ac i wneud penderfyniadau. Dilynwch eu hynt ar y wefan hon wrth inni gcisio am y dystysgrif arian eleni.

Pob lwc i'r Gweithgor gyda'i waith pwysig.

Noswyl y Nadolig, 24 Rhagfyr

9.00 yr hwyr: Gwasanaeth mewn golau kannwyll o Gymun Bendigaid Nadolig gyda'r Parch Lloyd Jones, Ficer.

Dydd Sul, 26 Rhagfyr

Dim gwasanaeth. Fe gynhelir gwasanaeth undebol i blwyfi Penisarwaun, Llanddeiniolen a Llanfairisgaer yn Eglwys St Deiniol, Llanddeiniolen am 2.00 y pñawn.

Dydd Sul, 2 Ionawr

Cymun Bendigaid gyda'r Parch Lloyd Jones. Estynnir croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau uchod i ddathlu'r Wyl.

GWASANAETH COFFA. Fe gynhelir gwasanaeth arbennig o goffa er cof am y diweddar Mr Bryngwyn Griffith (Bryn) cyn-organydd selog y plwyf, yn yr Eglwys nos Sul, 9 Ionawr am 4 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i deulu, ffrindiau a chymdogion Bryn a'r teulu i'r gwasanaeth arbennig yma.

DIOLCH YN FAWR. Fe garai swyddogion yr eglwys ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi cyfrannu mewn unrhyw fodd

drwy law y Trysorydd, Mr Selwyn Griffith, 7 Tal-y-Bont, Llanrug, neu drwy law y wardeniaid.

DYMUNIADAU GORAU. Mae swyddogion Eglwys Santes Helen yn dymuno Nadolig Llawen a Bendithion gorau i'r flwyddyn newydd i bawb.

GYRFAON CHWIST. Fe fydd y gyrfaon chwist yn aildddechrau ar ôl yr Wyl ar nos Fawrth, 11 Ionawr, am 7.30 o'r gloch.

DAWSIO LLINELL. Fe fydd y dawnsio llinell hefyd yn aildddechrau ar ôl y gwyliau yn neuadd yr Eglwys ar nos Iau, 13 Ionawr, am 7.30 o'r gloch.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Fore Sul, 12 Rhagfyr, mwynhawyd parti arbennig i ddathlu'r Nadolig a phen-blwydd yr Arolygwr ffyddlon, Evie Jones, yn 80 mlwydd oed. Mae cenedlaethau o blant y pentref wedi'u harolygu ganddo a dymuna'r aelodau presennol a'r gorffennol, ynghyd â'r athrawon, bob bendith a diolch iddo.

Ar 19 Rhagfyr, edrychir ymlaen am gael cwrdd â Sant y Plant, Siôn Corn, yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Diolchir i Fiona am wneud y trefniadau. Dymunir hwyl yr Wyl i bawb. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn y Sul ar ôl i'r ysgol ddechrau, sef **9 Ionawr 2011.**

CYDYMDEIMLAD. Estynnir ein cydymdeimlad llwyrfa â Rhian a Kelvin, Crud y Wawr, 3 Bryn Eglwys, yn eu profedigaeth o golli taid annwyl i Rhian, sef Richard Wyn Evans, Ty'n Buarth, Brynrefail.

PEN-BLWYDDI ARBENNIG. Llongyfarchiadau i ti, Phil - Philip Jones, Bryntirion - ar dy ben-blwydd yn 60 oed ar 2 Rhagfyr. Cariad mawr gan y teulu a dy ffrindiau a phawb yn y pentref.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Mr Evie Jones, 3 Bryntirion, ar gyrraedd 80 oed ar 8 Rhagfyr. Llauer o gariad gan Dilys a Nancy a'r teulu a phawb yma ym Mhenisarwaun. **PWYLLGOR NEUADD.** Tynnwyd Clwb Cant Rhagfyr a'r enillwyr lwcus yw Eric Jones, 17 Bryntirion; Iolo Hughes, Carmel.

Dymunir diolch i aelodau ffyddlon y Clwb Cant am eu cefnogaeth ac atgoffir chi yr adnewyddir yr aelodaeth ym mis Ionawr. Mae croeso cynnes i aelodau newydd: £6 y flwyddyn neu 50c y mis.

Diolchir i Phyllis am gymryd gofal cto cleni am archebion y catalog Webb Ivory gan sierhau elw taelus i'r gronfa. Cynhelir **Noson Wasael, nos Lun, 20 Rhagfyr am 6.30** yn y Neuadd Gymuned gydag eitemau gan blant yr ysgol, John Eifion a Marina, aelodau'r Pwyllgor a chynrychiolaeth o Fand Deiniolen. Bydd mins pei a

phwnsh i bawb, tynnir y Raffl Fawr a bydd cyfle i ganu'r Hen Garolau. Pris Oedolion: £2, plant nad ydynt yn cymryd rhan: 50c. Ymunwch â ni i ddathlu Hwyl yr Wyl.

Cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol ar **nos Lun, 30 Ionawr am 7.30** yn yr Ystafell Gymuned.

E I S T E D D F O D

GENEDLAETHOL YR URDD ERYRI. Cynhelir pwyllgor nos Lun, 30 Ionawr am 7.00 yn yr Ystafell Gymuned. Gobeithir cael cyfarfod ag Ifan Prys i gael syniadau ffres i orffen targed Penisarwaun a Brynrefail.

EISTEDDFOD BENTREF 2011. Yn dilyn y Cyfarfod Cyhoeddus ym mis Tachwedd, cytunwyd i gynnal yr Eisteddfod ar **1 Gorffennaf, 2011** pan fydd llai o bwysau ar ein pobl ifanc a bydd y tywydd yn dynerach ar gyfer yr ymarferion gyda'r nos. Cynhelir pwyllgor **nos Lun, 20 Ionawr am 7.00** yn yr Ystafell Gymuned i ddewis testunau a beirniaid. Erfynnir am eich presenoldeb.

CYLCH TI A FI. Bu'r Cylch yn hynod o ffodus o gael cymorth Paula gyda'r Celf a Chrefft ers dechrau'r flwyddyn. Fodd bynnag, gan fod Robert, mab Paula, yn yr ysgol yn llawn amser erbyn hyn, mae ganddi ofynion eraill. Bydd yn golled fawr i'r Cylch a dymunir diolch a dymuno'n dda iddi. O'r herwydd rydym yn chwilio am unigolyn arall i wirfoddoli gyda'r gwaith Celf.

Os oes diddordeb gan unrhyw un i ymgymryd â'r gwaith am awr bob dydd Iau, o 1.15 hyd 2.15 o'r gloch gyda phlant 2-3 oed, cysyllter â Katy Williams ar 07881651029 neu 01286 870224 os gwelwch yn dda. Telir costau defnyddiau ac offer gan y Cylch. Bydd y Cylch yn ailgychwyn brynhawn Iau, 6 Ionawr 2011.

GWELLHAD. Dymunir gwellhad i bawb ohonoch sy'n sâl yn y pentref ac, er gwaethaf y tywydd miniog oer, gobeithio y cewch Nadolig wrth eich bodd. **CYFARCHION YR WYL.** Dymunir Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch yn y pentref a Bro'r Eco.



CLWB YR HENOED. Enillydd Pal Bonws Tachwedd oedd Carole Porter, rhif 8. Llongyfarchiadau.

EGLWYS SANTES HELEN

Gwasanaethau ar gyfer Gŵyl y Nadolig:

Dydd Sul, 19 Rhagfyr

11.00 y bore: Gwasanaeth Naw Lliath a Charol

tuag at waith yr Eglwys yn y plwyf. Ac hefyd sydd wedi cyfrannu at Gronfa y Fynwent. Fe fydd y gwaith o drin llwybrau y fynwent yn dechrau yn fuan yn y flwyddyn newydd. Fe fydd llyfrau ariannol yr Eglwys yn cau am y flwyddyn ar **31 Rhagfyr.** Fe dderbynnir unrhyw rodd yn ddiolchgar

YSGOL YRRU
ELIDIR
DRIVING SCHOOL

07922121226

Hyfforddwrwg wedi ei chymeradwyo gan yr ASG

Jacqueline Williams

Gwers Gyntaf, 2 awr am bris 1

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

DOSBARTHU'R ECO. Mae angen dosbarthwr i'r Eco yn y pentref. Mae yn golygu rhannu'r Eco i 5 neu 6 dosbarthwr sydd wedyn yn eu danfon i dai y pentref. Fyddai'r gwaith ddim yn cymryd ond rhyw hanner awr, ar y mwyaf, unwaith y mis. Mi fuaswn yn ddiolchgar os medrech gysylltu i wirfoddoli.

Hoffem ddiolch i Alwyn a Valmai am wneud y gwaith uchod am gyfnod maith.

CYFARCHION YR WYL. Gan na fydd yn anfon cardiau eleni, mae Mrs Eirlys Williams 3 Pentre Helen, yn anfon ei dymuniadau gorau am Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau a'i chymdogion i gyd.

MERCHED Y WAWR. Daeth nifer dda ynghyd i gyfarfod mis Tachwedd a chroesawyd pawb gan y Llwydd ac anfonwyd cofion at bawb oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd gwaeldd. Trafodwyd nifer o faterion a oedd yn ymwneud â Merched y Wawr. Croesawyd y gŵr gwadd, sef Mr Pierino Algieri, sydd yn ffotograffydd proffesiynol, a ddangosodd nifer fawr o'i waith i ni ar ffurf sleidiau, o dirwedd Cymru ac hefyd o fywyd gwyllt. Gwledd i'r llygaid yn wir oedd cael eu gweld. Ar y diwedd cafodd yr aelodau gyfle i brynu peth o'i gynnyrch. Diolchwyd iddo gan Brenda.

Ar nos Wener, 20 Tachwedd, aeth tri thim o'r gangen i'r Seiont Manor i gystadlu yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol. Ni bu llwyddiant ond mwynhawyd y noson yn fawr a charai yr aelodau longyfarch cangen Rhiwlas ar eu llwyddiant yn ennill y gystadleuaeth. Da iawn nhw!

Edrychir ymlaen am y cinio Nadolig sydd i'w gynnal yng Ngwesty y Padarn Lake, Llanberis. Dymuna yr aelodau



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

CYDYMDEIMLIR â theulu'r diweddar Dewi Williams (Dewi Tate), Pentre Helen, a fu farw'n frawychus o sydyn yn ddiweddar.

ESTYNNIR hefyd ein cydymdeimlad â theulu Mrs Mair Lloyd Owen, Stryd Fawr gynt, a fu farw'n ddiweddar.

SEINDORF IEUNENCTID

Yn sicr, mae dyfodol Band Deiniolen yn ddiogel yn dilyn llwyddiant y Seindorf Ieuenctid ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru yn Llandudno yn ddiweddar. Daethant oddi yno gyda Thlws Coffa Eifion Roberts a Chwpan Sialens Llandudno. Roedd 27 o ieuenctid yn y seindorf a'i harweinydd ydi Osian Tomos, 5 Rhes Marian, Deiniolen.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur i'r band ieuenctid wrth iddynt gymryd rhan mewn nifer o gyngherddau yn ystod y flwyddyn. Yn mis Mehefin roeddent yn rhan o gyngerdd agoriadol Carnifal Deiniolen. Yn mis Hydref, roeddent yn falch iawn o gael cymryd rhan yng Nghyngerdd Blyneddol Seindorf Deiniolen yn Theatr Seilo, Caernarfon. Roedd hwn yn gyngerdd arbennig gan ei fod yn gyngerdd elusennol i

LLWYDDIANT SEINDORF IEUNENCTID DEINIOLEN

gynorthwyo aelod o'r seindorf, sef Alan Pritchard.

Yn ystod y flwyddyn byddant yn paratoi i gystadlu yng nghystadleuaeth Unawdau

Bandiau Pres Gogledd Cymru yn Galeri, Caernarfon.

Llongyfarchiadau mawr iddynt ar eu llwyddiant a phob lwc iddynt ar gyfer y dyfodol.

Nadolig

Ar ŵyl, llwm yw'r gorwelion; - mae rhyfel
mor afiach: mae'r tlodion
yn groes ar hyd blwyddyn gron;
Ar daith i'n byd ddaw'r doethion?

RICHARD LLWYD JONES, BETHEL

Dros 50? Medrwch ymddiried yng Nghynnyrch a Gwasanaethau

YSWIRIANT CARTREF

NWY A THRYDAN

YSWIRIANT CAR

CYNLLUNIAU ANGLADD

YSWIRIANT TEITHIO

GWYLIAU

GWASANAETH LARWM PERSONOL

YSWIRIANT RHAG TORRI I LAWR

Darperir yr Yswiriant Cartref, Car a Theithio gan Fortis Insurance Limited.
Darperir yr Yswiriant Rhag Torri i Lawr gan Europ Assistance Holdings Limited.

I gael mwy o fanylion ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen, Caernarfon, LL55 2YD

Tel: 01286 678310

neu ffoniwch: 0800 085 3741

neu ymwelwch â: www.ageconcern.org.uk/products

AGE
Concern

Age UK yw'r grŵp newydd sy'n uno Age Concern a Help the Aged. Mae tîd Age UK yn cynnwys Age Scotland, Age Cymru ac Age NI.
Age Concern Enterprises Limited, Astral House, 1268 London Road, SW16 4ER

AGCWA18602JUL10 CS020664_10

Phillip Foulkes

CONTRACTIWR PLASTRO

Mownol • Allanol Drylining

Plastfyrddio Yn Ei Le

Ymgynghori Ac

Amcangyfrif Am Aelid

PENCAMPWR PRYDAIN

2009

Enillydd Dosbarth Plastrwr a Chyffredinol

Tel. 07760393155

ebost: phillipfoulkes@hotmail.co.uk

• Priodasau • Dathliadau

• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau

• Pwyllgorau • Bwydlen Bar

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

with droed yn Wyddfa

Ffôn: 0844 411 9003

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED

Daeth yr aelodau ynghyd i'w Cyfarfod Blynnyddol ar Dachwedd 18fed. Roedd y gweithrediadau dan ofal Margaret Lloyd Jones pryd yr etholwyd swyddogion am y flwyddyn 2011: Llywydd, Pat Jones; Is-lywydd, Elinor Williams; Ysgrifennyddes, Carol Houston; Trysorydd, Vera Price. Diolchwyd i Gwenda Roberts am ei gwaith fel trefnydd rhaglenni am gyfnod helaeth ac etholwyd Gwen Edwards i'w holynu. Gŵr gwadd y noson oedd Norman Evans o Niwbwrch Ynys Môn a mwynhawyd arddangosfa flodau ganddo ar y testun 'Naws y Nadolig'. Nos Wener, Rhagfyr 10fed cynhaliwyd Noson Garolau yn Eglwys y Santes Fair, Tregarth. Roedd i'r noson awyrgylch arbennig dan ofal Grwp Eryri o Sefydliad y Merched. Yn bresennol hefyd roedd y Parch John Mathews a'r cyfeilydd oedd James Griffiths. Cynrychiolwyd y gangen leol gan Pat Jones a Carol Houston. Mae'r aelodau yn awr yn edrych ymlaen am eu cinio Nadolig blynnyddol yng ngwesty'r Bull, Beaumaris nos Iau, Rhagfyr 16eg.

YR EGLWYS

BRESBYTERAIDD

COLLI BLAENOR Yn yr oedfa nos Sul, Rhagfyr 12fed, coffawyd ein blaenor hynaf sef y diweddar Richard Wyn Evans Ty'n Buarth a hynny o fewn ychydig wythnosau yn unig wedi iddo gacl ci anrhydeddu gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru am wasanaeth o drigain mlynedd fel blaenor yn Eglwys Brynrefail ac o fewn y Cyfundeb. Cyfeiriodd llywydd y mis, Gwyn Hefin Jones at ei gyfraniad a'i ffyddlondeb mewn llawer cyfeiriad ond yn arbennig fel Ysgrifennydd y

Cyhoeddiadau am gyfnod maith ac at y ddawn brin oedd ganddo y dyddiau hyn fel gweddiwr cyhoeddus. Bydd ei golli o'n plith yn gadael bwlch amlwg iawn yn ein haddoliad a'n cymdeithas o fewn yr Eglwys. Cydymdeimlwyd fel cynulleidfa â'r teulu yn eu profedigaeth a'u colled. Bu ei wasanaeth angladdol yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun dan ofal ei berthynas y Parch Reuben Roberts ac ef ar ran y teulu a dalodd y deyrnged ynghyd a Jennie Angharad Roberts ar ran Eglwys Brynrefail. Cymerwyd rhannau ymhellach yn y gwasanaeth gan y Parchg. D. John Pritchard, Llanberis a'r Parch Eric Jones, Bangor a'r organyddes oedd Lowri Roberts Williams.

GWAELEDD Gofid oedd deall am anhwylder un o'n blaenoriaid, Bertie Lloyd Roberts, Llwyncoed Bach. Fe'i cipwyd i Ysbyty Gwynedd yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Anfonwn ein cofion ato gan ddymuno iddo adferiad buan.

CYFARCHION Mae ein cofion at bawb ar drothwy Gŵyl y Geni yn arbennig y rhai o'n plith nad ydynt yn dda cu hiechyd a'r cyfryw rai sydd mewn hiraeth am anwyliad a gollwyd yn ystod y flwyddyn. Dymunwn fendithion yr Ŵyl i chwi oll a phob dymuniad da yn y Flwyddyn Newydd.

OEDFAON IONAWR 2011

2 am 2.00 Parch D. John Pritchard, Llanberis

9 am 5.30 Parch Marcus W. Robinson, Bethel

16 am 5.30 Mr Glyn Owen, Llanwnda

23 am 5.30 Parch Gwenda Richards, Caernarfon

30 am 5.30 Parch Deian Elfed Evans, Gofalaeth Bro Lleu

PROFEDIGAETH

Daeth y newydd yn dra annisgwyl fore Gwener,

Teyrnged i Richard W. Evans

Yn blentyn ifanc teirblwydd oed, bu i Richard golli ei fam ar enedigaeth ei chwaer Jeannie Wyn Jones, Nant Peris ac o ganlyniad dod o Lanberis i fyw at ei daid a'i nain i Dy'n Buarth. Colled drist unwaith yn rhagor oedd colli ei nain pan oedd ond wyth mlwydd oed. Byw gyda'i daid fu ei hanes wedyn nes iddo briodi a Gwyneth yn 1952 ac felly roeddynt yn ddiweddar newydd ddathlu 58 mlynedd o fywyd priodasol. Ganed iddynt ddwy ferch, Dilys a Mair. Tristwch ac ergyd drom i Richard oedd colli Dilys ddwy flynedd yn ôl a hithau wedi dioddef salwch brwnt. Dilyn crefft fel saer coed fu ei alwedigaeth. Bu'n gweithio gyda'i ewythr, y diweddar Thomas Pritchard, Llanberis am dros ugain mlynedd ac yna gyda Chyngor Arfon am saith mlynedd ar hugain. Roedd Richard wrth ei fodd o gwmpas ei gartref yn Nhy'n Buarth ac yn ac yn hoff o ymweld a Phant y Buarth lle trigai ei deulu agosaf. Gŵr ei filltir sgwar ydoedd a'i ddiddordebau yn troi o amgylch y cartref ac un o'r rhai a garai fwyaf oedd cadw ier. Roedd i'r capel ym Mrynrefail le amlwg iawn ym mywyd Richard a'i ffyddlondeb i'r oedfaon a phopeth yn ymwneud a'r Achos yn cael rhan flaenllaw yn ei fywyd. Gallai droi ei law at nifer o orchwylion a chofir



am ei ymroddiad fel Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau am gyfnod maith a'i ddawn nodedig fel gweddiwr cyhoeddus wedi ei meithrin ynddo yn y dyddiau cynnar ar yr aelwyd gan ei daid. Cafodd y fraint o ddathlu trigain mlynedd fel blaenor ffyddlon yng ngwaith ei Arglwydd. Adlewyrchid ei ffydd gadarn a'i dystiolaeth i'w Waredwr yn yr emyn a oedd yn ffefryn ganddo wrth gymryd rhan yn y cyfarfodydd gweddi dros y blynnyddoedd: "Iesu, nid oes terfyn arnat..."

Cymeriad hwyliog oedd Richard, llawn direidi ar adegau ac felly y bu hyd y diwedd, yn dynnwyr coes y gofalwyr a'r nyrsus a alwai yn ddyddiol yn Nhy'n Buarth. Roedd hefyd yn gymeriad cryf gyda meddwl mawr o'i gyfeillion a'i gydweithwyr. Bu yn dad a thaid annwyl, caredig a gofalus dros ben a gŵr balch o'i hen deulu a hanai o wlad Llŷn. Diolch am ei fywyd, ei wasanaeth ac atgofion i'w trysori.

Tachwedd 26ain am ymadawiad Richard Wyn Evans, yn ei gartref yn Nhy'n Buarth yn 83 mlwydd oed. Mae ein cydymdeimlad oll yn ddwys a'i weddw Gwyneth, ei ferch Mair a'r teulu, ei chwaer Jeannie Wyn a theulu Pant y Buarth yn eu profedigaeth a'u colled.

DIOLCH Dymuna teulu'r

diweddar Richard Wyn Evans, Ty'n Buarth ddatgan eu diolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt o golli priod, tad, tad-yng -nghyfraith, brawd, a thaid ffyddlon a charedig. Diolch am y llu o gardiau, ymweliadau a'r holl roddion tuag at Feddygfa Llanberis.



E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r ystaf

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

Sychlanhau

Altro

Ailwnio

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870088

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO



Contractor Trydanol
ELECTRICAL CONTRACTORS

Trydanwr Lleol !!

Gwaith O Safon Orau Bob Amser !!

Amcangyfrif
AM DDIM

Cysylltwch a Jonathan Roberts

10 Rhes Y Cynfi Deiniolen

e/bost- jtlelectrical@hotmail.co.uk

Ffôn 07969784672



BOCS O
FFRWYTHAU A LLUSIAU

£10. Wedi ei ddanfôn
AM DDIM yn lleol

ffoniwch - WIL, PEN-LLYN 07990926484

TEULU YSBYTY CHWAREL LLANBERIS

Fel rhan o'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod diwrnod agored yn Ysbyty Chwarel Dinorwig ar yr 2ail o Dachwedd, traethwyd sgwrs gan Vivian Hughes yn olrhain gwasanaeth ei deulu i Chwarel Dinorwig a'i blentyndod yntau yn yr Ysbyty.

Mae'r ysgrif ganlynol wedi ei seilio ar y sgwrs gan Vivian ynghyd â galwadau ffôn a fu wedyn.

Fe ymunodd tad Vivian, Griffith Samuel Hughes, â Chwarel Dinorwig fel prentis yn Ysbyty'r Chwarel yn ystod 1904 yn 22 mlwydd oed. Roedd Griffith Hughes yn enedigol o Fangor a chanddo ddim profiad nac addysg feddygol!

Yn 1904 roedd Prif Feddyg, yr adnabyddus Dr Mills Roberts, a chwaraeodd bêldroed wyth gwaith dros Gymru rhwng 1885 a 1892, meddyg arall a nifer o nyrsys yn rhedeg yr Ysbyty.

Drwy astudio, gwylio a chymryd rhan yng ngwaith yr Ysbyty, daeth Griffith yn fedrus iawn mewn trin anafiadau i lygad, dwylo, traed a phen - anafiadau cyffredin iawn i chwarelwr. Hefyd cymerodd ran mewn triniaethau mwy cymhleth, megis torri coes/braich i ffwrdd a chynnal Post Mortem. Ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf roedd cyflwr y ffyrdd o Lanberis i Gaernarfon ac i Fangor, a safon y drafnidiaeth oedd ar gael, yn gorfodi'r Ysbyty i ymdrin â'r mwyafrif o ddamweiniau eu hunain.

Ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, 1914-1919, gadawodd Dr Mills Roberts yr Ysbyty ac ymuno â'r Fyddin - ni ddychwelodd i'r Ysbyty ar ddiwedd y rhyfel.

Gadawodd yr ail feddyg yn nechrau 20au y ganrif ddiwethaf, efallai oherwydd bod llai o weithwyr, oherwydd y dirwasgiad yn y Chwarel ac felly llai o ddamweiniau'n digwydd. Efallai fod cyflwr y ffyrdd a'r

drafnidiaeth wedi gwella a'i gwneud yn haws mynd â'r cleifion i'r ysbytai mawr.

Yn dilyn ymadawiad yr unig feddyg, Griffith Hughes a'r nyrsys oedd yn gyfrifol am holl gleifion Chwarel Dinorwig, unai eu trin yn Ysbyty'r Chwarel neu benderfynu eu hanfon i'r ysbytai yng Nghaernarfon neu Fangor. Fel canlyniad i'w fedrusrwydd a'i brofiad, fe gyfeiriai'r chwarelwyr at Griffith Hughes fel Dr Hughes. Bu Dr Hughes yn gweithio yn yr Ysbyty am 55 mlynedd, heblaw am ei amser yn Rwsia gyda'r Fyddin ar derfyn y Rhyfel Byd, cyn iddo ymddeol yn 1959 oherwydd dirywiad yn ei olwg.

Ar ddechrau'r Rhyfel Mawr fe ymgartrefodd teulu o ffoaduriaid o wlad Belg yn Llanberis. Syrthiodd Griffith Hughes mewn cariad ac un o ferched y teulu, ac arweiniodd hyn at briodas yn 1920. Beech Bank oedd cartref y ddau ar y cychwyn ond, pan gynigiwyd llety iddynt yn yr Ysbyty, symudodd y ddau yno yn 1934. Ganwyd mab, Vivian, awdur y sgwrs, iddynt yn 1939.

Trwy gydol ei hoes roedd Mrs Hughes yn tystio i'r croeso a'r cyfeillgarwch a dderbyniodd hi a'i theulu gan drigolion Llanberis. Fe ymgymrodd â nifer o weithgareddau cymunedol mewn ymdrech i dalu ychydig o'r pwyth yn ôl. Bu hi, ynghyd â nifer eraill o ferched blaenllaw'r pentref, yn gyfrifol am sefydlu Clwb yr Henoed yn Llanberis, a hi oedd eu hysgrifenyddes gyntaf, rhwng 1946 a 1966. Fe symudodd Mrs Hughes o Lanberis yn 1969 i Sir Gaer, lle y bu tan ei marwolaeth yn 87 oed yn 1981.

I Ysgol Dolbadarn yr aeth Vivian, a enwyd ar ôl cyn-reolwr y Chwarel, i ddechrau, a mawr oedd ei bleser yn enwi rhai o'i ffrindiau ysgol ac yn adrodd eu hanes yn chwarae o amgylch ei gartref yn yr Ysbyty. Mae'n siŵr



Ysbyty'r chwarel sydd yn amgueddfa ddiddorol bellach.

fod llawer o ddarlennwyr yr Eco yn cofio'r ebol bychan, Dafydd, a ddygwyd wedi cael caniatâd, o Cefn Du/Dinas gan Vivian a'i ffrindiau i'r Ysbyty wedi i fam Dafydd ei wrthod. Roedd Dafydd yn atyniad i blant Llanberis am rai blynyddoedd, yn enwedig pan oeddem yn mynd at yr Ysbyty am dro ar bnawn Sul. Er i Vivian gychwyn ei addysg uwchradd drwy dreulio ychydig amser yn yr hen Ysgol Brynrefail, penderfynodd ei rieni ei yrru i ysgol breswyl Babyddol yn agos i Lundain i gyflawni ei addysg.

Mac Vivian yn bwriadu

cyhoeddi llyfr o hunangofiant tua chanol 2011, yn cofnodi ei blentyndod, ei deulu rhyngwladol a'i yrfaoedd lliwgar wedi iddo adael ysgol.

Buasai Vivian, a'i gyhoeddwr, yn falch iawn o dderbyn unrhyw wybodaeth/ llun/ dogfen/ stori sydd yn berthnasol iddo ef, i'r teulu neu'r Ysbyty er mwyn ychwanegu at ei wybodaeth, ac efallai ei gynnwys yn ei lyfr.

Am wybodaeth o'r dull i gysylltu â Vivian, cysylltwch â mi, Eifion Roberts, yn ôl y manylion ar dudalen 2 o'r Eco.



Cyril Jones a Vivian Hughes - dau hen gyfaill ysgol yn yr ysbyty.

PADARN LAKE LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD**

CANOL DYDD

A GYDA'R NOS

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau - Partion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



**MANTELL
GWYNEDD**

Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

Cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnyddig drwy Warant 3420271



Ar Ben Arall y Lein

Adroddiad Cadeirydd y Gymdeithas am 2010

Tymor braidd yn gymysglyd oedd yr un aeth heibio. Wedi problemau dwys Llyn Padarn y llynedd, roedd ein haelodau, yn naturiol, fymryn yn bryderus am dynged ein pysgodfeydd yn ystod y flwyddyn. A phwy fedr anghofio'r gaeaf hir a chaled? Flwyddyn neu ddwy yn ôl roedd sôn na welwn yr Wyddfa eto yn wyn, ond eleni, fel y llynedd, roedd y copa a'r llethrau dan eira ar ddechrau'r tymor.

Tipyn yn araf oedd dechrau'r pysgota brithyll a phrin iawn oedd y bachiadau yn y tywydd gaeafol. Ond, yn sydyn, yn ystod mis Mai roedd y gwanwyn wedi troi yn haf a'r 'sgota'n gwella. Roedd Llyn Dywarchen yn denu genweirwyr - aelodau ac ymwelwyr - a'r rhan fwyaf yn cael hwyl arni. Braf oedd gweld dŵr Llyn Padarn yn glaeaf a chroyw yn ystod mis Mehefin, a daliwyd ambell frithyll o faint sylweddol cyn yr haf. Yn ystod y cyfnod yma roedd llawer wedi llwyddo ar y cychod ar Lynnoedd Nantlle a Cwellyn hefyd.

Erbyn canol yr haf roedd tywydd traddodiadol gwyliu'r ysgol wedi ei ailsefydlu, a mân lifogydd yn denu sewin i'r Llyfni. Bu nosweithiau difyr a ffrwythlon ar ei glannau. Cafwyd mwy o sewin ar y Seiont hefyd, a mwy o bysgotwyr yn crwydro liw nos yn bwrpasol i'w dal sydd, wrth gwrs, yn cynnal llwyddiant, ond ar y cyfan mae nifer o'r aelodau wedi gweld mwy o'r pysgod yma yn yr Afon Seiont na fu ers tro. Mae'n anodd bod yn sicr beth yw'r berthynas rhwng llygredd y blynyddoedd diwethaf a'r rhediad da o sewin eleni ond tybed oedd safon y dŵr yn yr afon wedi gwella rhywfaint i'w gymharu â'r hafau a fu? Roedd

hi'n amlwg hefyd bod brithyll bras wedi dod i'r rhwyd ar hyd y marddwr a Stablau yn ystod y dŵr uchel cyson a ddilynodd y glaw.

Roedd ambell li yn ystod mis Medi ond prin oedd yr eog tan ddiwedd y mis, ond daliwyd nifer dda ar ddechrau mis Hydref cyn i'r dŵr fynd heibio. O na fuasai ein tymor yn hirach, neu yn hytrach na fuasai'r eog yn fodlon mentro o'r môr yn ystod yr haf. Tybed bod hyn hefyd yn adlewyrchu safon y dŵr yn ystod dyddiau hiraf y flwyddyn? Daeth eog i'r rhwyd ar lannau'r Gwyrfa eto, hefyd.

Wrth i mi ysgrifennu mae rhai aelodau wedi cael hwyl arbennig ar ddal eog i'w godro ar gyfer stocio'r Seiont, sydd yn fenter newydd ar ein rhan. Mae diolch mawr i'r criw 'ifanc' yn y ddeorfa am eu cyfraniad at y gwaith. Maent wedi rhedeg milltiroedd a chwysu chwartiau i gael y pysgod o lan yr afon i'w llety newydd, heb sôn am yr oriau fel darpar dadau yn disgwyl caniad y ffôn efo'r newyddion pa un ai ceiliog ynteu iâr oedd yn nwylo'r 'sgotwr.

Cafodd rhai o'n haelodau gyfle i drafod ein pysgodfeydd efo swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'n hawdd cael yr argraff bod pysgotwyr a'r awdurdodau yn siarad dwy iaith hollol wahanol, a'u dyheadau am ddyfodol ein dyfroedd bron yn groes i'w gilydd. Un mater sydd wedi codi yw'r bygythiad y bydd dal a rhyddhau yn dod yn orfodaeth arnom. Y gwir yw fod yr Asiantaeth yn bwriadu newid rhai is-ddeddfau, a bod dau bwrpas penodol i'r newidiadau. Y cyntaf yw ceisio cynnig mwy o bysgota drwy ymestyn y tymor, a'r ail yw gwarchod eogiaid - a dyma ble mae dal a rhyddhau yn rhan o'r drafodaeth. Mae posib ymestyn y tymor yn ffurfiol at ddiwedd mis Hydref - felly yn cynnig

mwy o bysgota. Y gwir yw ein bod wedi bod yn pysgota ar hyd y mis ers pedwar tymor ar ddeg bellach fel rhan o'r arbrawf. Ond mae'r Asiantaeth wedi codi'r syniad o ddal a rhyddhau yn orfodol o ddechrau mis Hydref. Mae pysgotwyr ochrau Dyfrdwy a Chlwyd yn fodlon derbyn hyn, ond gallaf eich sicrhau fod clybiau Gwynedd wedi protestio yn gryf yn ei erbyn. Mae'r rhan helaeth o'n eogiaid ni yn cael eu dal yn ystod wythnosau olaf y tymor. Petai pysgod mis Hydref i gyd yn mynd yn ôl i'r afon buasai'r rhan fwyaf o'n haelodau yn cael tymor ar ôl tymor heb eog i'w gadw, ac yn ein barn ni fe fuasai aelodaeth clybiau yn dioddef.

I fod yn deg, mae'r Asiantaeth wedi cydnabod ein pryder, ac yn cynnig bod Gwynedd, yn hytrach, yn parhau i gael cadw pysgod tan yr 17 o Hydref, ond yn rhoi pwyslais ar ddal a rhyddhau - yn benodol drwy gyfyngu ar y nifer o eogiaid y gall unigolyn eu cadw yn ystod y tymor ('bag limit'). Yn ôl y sôn mae pysgodfeydd yn Lloegr yn teimlo bod dau eog y flwyddyn yn rhesymol. Mae rhai o glybiau Gwynedd yn taeru bod rhai pysgotwyr yn lladd hyd at ugain eog y flwyddyn (nid ar y Seiont!) ac yn gweld perswadio'u haelodau i dderbyn lladd dau bysgodyn yn heriol, a does dim cytundeb hyd yn hyn un ai ar ran y 'bag limit' yn y lle cyntaf nac ychwaith ar unrhyw ffigwr fel nifer o eog i'w lladd.

Pwysleisir mai'r Asiantaeth fuasai'n creu'r is-ddeddfau, ond maent yn awyddus i weld clybiau yn ymdrin â'r rheolau ynglŷn â chyfyngu ar ladd pysgod. Mae teimladau cymysg ynglŷn â dal a rhyddhau ond, wrth agor unrhyw gylchgrawn pysgota, gwelir bod yr arferiad bellach yn gyffredin ar hyd a lled y wlad. Mae ein clwb ni yn adnabyddus fel clwb arloesol ei syniadau ac efallai y dylen ni sicrhau nad ydym yn cael ein ynysu gan agweddau negyddol wrth i'r drafodaeth symud ymlaen.

Mae cryn waith ar ysgwyddau swyddogion y clwb a tipyn o alw ar eu hamser ac ar amser aelodau'r pwyllgor gwaith. Bwriedir newid rhywfaint ar y drefn i geisio cyflawni'r gwaith drwy gael cyfarfod chwarterol o'r pwyllgor yn hytrach na phob mis.

Mae'r cyfarwyddwyr hefyd wrthi ers sbel, a dyma gyfle, os y dymunir, i gael gwaed newydd.

Os oes aelod yn frwdfrydig ac yn fodlon cynnig syniadau a gweithio i symud pethau yn eu blaen, efallai y dylid meddwl ceisio am swydd fel Cyfarwyddwr i'r Gymdeithas. Mae'n rhaid cael aelod i enwebu aelod arall i fod yn ddarpar gyfarwyddwr ac, wrth gwrs, mae'n rhaid i'r aelod hwnnw fod yn fodlon sefyll. Ar lan yr afon mae sylwadau (a chwynion) am yr hyn y dylid eu gwneud i wella'r 'sgota neu'r ddarpariaeth i'w clywed bob dydd o'r tymor - ond dyma gyfle i weithredu'r syniadau.

Ymysg y swyddogion mae llawer ohonoch yn gwybod bod un wedi ysgwyddo'r baich ers dros dri degawd bellach. Yn ystod y cyfnod yma mae wedi helpu i newid y Gymdeithas o fod yn glwb 'sgota i fod yn un o'r cymdeithasau mwyaf llewyrchus ym Mhrydain, gyda syniadau chwyldroadol a, chydymorth yr aelodau a'r swyddogion, wedi gweithredu rhaglen o brynu eiddo a dyfroedd sydd wedi ein hatgyfnerthu yn sylweddol.

Ond mae'n rhaid edrych ymlaen a hoffwn, drwy'r adroddiad yma, 'sgota rhywfaint am ysgrifennydd y dyfodol. Petai unrhyw un am dderbyn yr abwyd, mae'n amlwg y bydd angen gwybodaeth am ein dyfroedd a'n hawliau yn ogystal â sgiliau cyfrifiadurol a chyfathrebu, ond mwy na dim y brwdfrydedd i weithio ar ran y clwb a'i gyd-aelodau. Mae cydnabyddiaeth ariannol ar gael. Os oes gwir ddiddordeb i wybod mwy am y cyfrifoldebau a'r swydd o ysgrifennydd i'r Gymdeithas, cysylltwch â fi ar robinpar@internet.com

Diolchaf ar eich rhan i bawb sydd wedi cyfrannu at weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, y trysorydd, y cyfarwyddwyr ac aelodau'r pwyllgor, yn ogystal â'r hai sydd yn weithgar tu ôl i'r llenni yn clirio a chynnal y glannau a'r cychod, ac yn trefnu tocynnau i'r siopau.

Diolch eto i'r ddau unigolyn sydd wedi cynnal ein gwefannau dros y blynyddoedd. Hoffwn ddiolch yn arbennig ar ddiwedd y flwyddyn i'r ysgrifennydd am ei waith yn 2010.

Ar ran y Pwyllgor a'r swyddogion hoffwn gynnig y dymuniadau gorau i chi a'ch teuluoedd dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a phob hwyl gyda'r enwair yn 2011.

DR ROBIN PARRY, CADEIRYDD

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol

2 Stryd y Plas, Caernarfon

(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn.

Parc Menai, Bangor

(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswiriad a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985



BWRDD VR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Llywodraeth
Cynulliad Cymru



www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

CHWARAEON

FFARWELIO Â'R HEN...



Yr hen gwt yn cael ei chwalu (mis Mai 2010).

Mae cais am grantiau gan yr ysgrifennydd Eurwyn Thomas wedi cael ei sicrhau gan: Llywodraeth Cynulliad Cymru (CFAB); Tir a môr, a help ariannol gan: Cyngor Cymdeithas Llanberis, Pwyllgor Carnifal Llanberis, Partneriaeth Llanberis, Canolfan Cymdeithasol Llanberis, First Hydro, Ras yr Wyddfa.

Mae llawer o fudiadau y pentref wedi helpu'r Clwb hefo'r cais a bydd yr adeilad newydd ar gael i'w logi gan unrhyw fudiad yn y pentref.

Yr adeiladwr yw D W Evans, Llanberis. Gobeithio y bydd y gwaith adeiladu wedi ei gwblhau erbyn y Nadolig.

Os am fwy o wybodaeth cysylltwch efo Eurwyn Thomas, Ysgrifennydd y Clwb.

CLWB PÊL-DROED LLANBERIS

...A CHROESAWU'R NEWYDD



Yr adeilad newydd yn cael ei adeiladu (mis Hydref 2010).

...a'r criw fu'n codi'r hen gwt yn 1980



Y pwyllgor yn codi sylfaen i'r hen gwt yn 1980: Len Jones, John Williams (Chiv), Meirion Griffiths, Arfon Philips, Eurwyn Thomas (Ysgrifennydd), Ken Jones, Robin Jones, Iwan Williams (Jiws), Lal Jones, Jack.

CWIS NADOLIG YR ECO

1. I ba sir yr arwyddodd Kevin Peterson ar ddiwedd tymor criced 2010?
2. Yn erbyn pa wlad y collodd Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd ac a arweiniodd at ymddiswyddiad Gareth Jenkins fel hyfforddwr?
3. Ym mha dref yng Nghymru mae maes pêl-droed Parc Latham?
4. Pwy yw arweinydd tîm y NEXUS?
5. Pa dimau o Ynys Môn sydd wedi chwarae yng Nghynghrair Genedlaethol Pêl-droed Cymru?
6. Pa dîm sy'n herio Genoa yn narbi pêl-droed Genoa yn yr Eidal?
7. Pwy yw'r canolwr ifanc o Fae Colwyn sy'n chwarae'n rheolaidd i dîm rygbi'r Dreigiau?
8. Pwy oedd â'r cyffyrddiad olaf i greu'r ddau gais i George North yn y gêm yn erbyn De'r Affrig?
9. O ba wlad y daw'r dyfarnwr criced rhyngwladol Tony Hill?
10. I ba glwb yr aeth Aaron Ramsey ar fenthg eleni?
11. Hyfforddwr pa glwb rygbi yw Rowland Phillips?
12. Ym mha dref Wyddelig y mae pencadlys cwmni Magners, sy'n noddi'r Gynghrair Rygbi Geltaidd?
13. Pwy oedd yr unig Gymro yn nhîm y Barbariaid a orchfygodd y Springboks ar ddiwedd taith yr Hydref?
14. Pa dîm pêl-droed yng Ngogledd Cymru sy'n chwarae eu gemau cartref ar Cac Ffwf?
15. Pa dair afon mae'n Cymdeithas Bysgota Lleol yn 'reoli'?
16. Pwy oedd y Gymro olaf i godi Cwpan yr F.A. fel capten?
17. Pa dimau yn Uwch Gynghrair Lloegr sy'n gwisgo crysau streipio fel eu dewis cyntaf?
18. Ym mha gamp y ceir cystadlu am Gwpan Americas?
19. Pa wlad wynebodd yr Alban yn rownd derfynol Cwpan Criced y Byd i'r gwledydd llai eleni?
20. Sawl swyddog sy'n rheoli gemau yng Nghwpan Pêl-droed Europa eleni?

(Mae'r atebion i'w gweld ar y dde.)

DYMUNIADAU'R WYL

Cymcraff y cyfoc yma ar ran yr 'Adran Chwaraeon' i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi i gyd, yn ddarllenwyr, cyfranwyr ac ymgymrwyr yn y lliaws gampau sy'n britho Bro'r Eco. Fel y mae'n hybys wedi'r Cyfarfod Cyffredinol bydd cryn newid i edrychiad yr Eco - yn enwedig drwy gynyddu'r defnydd o luniau. Cofiwch fod y Papur Bro yn gofnod o hanes bro. Gytrwch eich storïau ataf fel y ccdwir i'r oesoedd a ddel.... Cofiwch fod y mwyafrif yn cadw'r rhifynnau o Eco'r Wyddfa ac yn ailgylchu y Caernarfon and Denbigh!

Ras Nadolig Llyn Padarn

Mac Clwb Rhedwyr Eryri wedi bod yn trefnu ras o amgylch Llyn Padarn bob Sul cyn y Nadolig ers blynnyddoedd bellach, ac y mae'r digwyddiad wedi profi'n hynod lwyddiannus. Eleni eto, bydd y ras yn cychwyn o Westy'r Fictoria am 11.00 o'r gloch y bore. Gellir cofrestru yno o ddeg o'r gloch ymlaen. Y pris yw £5 i bob oedolyn, a phlant am ddim. Bydd cawl a bara ar gael i bob rhedwr am y pris. Fel arfer, bydd cystadleuaeth dyfalu amser Siôn Corn, ac mae croeso i unrhyw un redcg mcwn gwisg ffansi - gyda gwobr arbennig i'r enillydd. Nid oes angen bod yn aelod o Glwb Rhedwyr Eryri i gymryd rhan. Croeso i bawb.

1. Surrey; 2. Fiji; 3. Y Drenewydd; 4. Wayne Barrett; 5. Llangefni a Bac Cemaes; 6. Sampdoria; 7. Patrick Leach; 8. Stephen Jones; 9. Seland Newydd; 10. Nottingham Forest; 11. Alton; 12. Clonmel; 13. Martin Williams; 14. Glan Conwy (Llansantffraid); 15. Seion, Llyfn, Gwylfa; 16. Kevin Ratcliffe; 17. Newcastle Utd, Stoke City, West Bromwich Albion, Sunderland; 18. Hwyllo; 19. Afghanistan; 20. 6 (2 ddyfarnwr, 2 ystlysgr, ystlysgr ger y golian);

ATERION Y CWIS NADOLIG



Cofiwch gadw'r rhifyn hwn o'r Eco i gael manylion ein holl hysbysebwyd